# ECO'R WYDDFA

RHIF 315 HYDREF 2004 PRIS 40c


## Yn y rhifyn hwn:


- Hanes cenhedlaeth yn cyrraedd Deiniolen o America yn 1971 – tud. 6
- Ysgol Llanrug yn ffarwelio â Ieuan Wyn ar ôl 18 mlynedd – tud.12
- Cyfle i ennill DVD o Ras yr Wyddfa – tud. 23


## Cysylltu ag Awstralia eto ar ôl 86 mlynedd

Ar Medi 22, 1918, llwyddodd **Marconi i anfon neges radio yr holl ffordd o Gefn Du, uwchben Llanrug, i ochr arall y byd. Pan dderbyniwyd y neges yn Wahroonga, Sydney, Awstralia, dyma'r tro cyntaf erioed i hyn gael ei wneud – a gyda hyn roedd Llanrug wedi ennill ei lle yn hanes dechreuad a datblygiad y radio.**

Nawr, 86 mlynedd yn ddiweddarach, mae rhai o blant Bro'r Eco wedi bod yn dathlu'r digwyddiad trwy yrru negeseuon eu hunain i'r un man.

Ar Medi 22, 2004, anfonwyd e-bost o Ysgol Gynradd Llanrug i Ysgol Wahroonga yn eu cyfarch a chychwyn cysylltiad rhwng y ddwy ysgol.

Gwnaed y cysylltiad ar ôl ymweliad Mrs Jo Harris, un o Gyfarwyddwyr Cymdeithas Hanesyddol o Wahroonga â'r ardal y mis diwethaf. Roedd hi, fel aelodau Pwyllgor yr elusen Cyfeillion Marconi, yn teimlo fod perygl i bwysigrwydd Cefn Du a Wahroonga yn hanes radio gael ei anghofio.

Roedd y neges yn 1918 oddi wrth W. M. Hughes, Prif Weinidog Awstralia, yn canmol rhan milwyr y wlad yn y rhyfel.

Mewn E-bost oddi wrth Bennaeth Ysgol Wahroonga i Robin Williams, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanrug, roedd yn datgan fod gwneud y cysylltiad rhwng y ddwy ysgol yn gyffrous ac yn brofiad gwych i'r plant gyfnewid gwybodaeth am eu hunain a'u hardal.

Roedd hefyd yn sôn am ymweliad rhai o blant yr ysgol â'r gerfddelw o Mercury sy'n coffáu'r achlysur o drosglwyddo'r neges o Gefn Du. Mae copi o'r gerfddelw hon i'w gweld yng nghyntedd swyddfa Cyngor Sir Gwynedd yng Nghaernarfon, hyd nes ceir lle teilwng ar ei gyfer yn yr ardal.

## Efelychu Marconi



## Guglielmo Marconi

Ganwyd Marconi ym Mologna ar 25 Ebrill 1874. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn ffiseg a thrydan cyn mynd i'r Istituto Nazionale yn Livorro lle bu'n astudio.

Deallir ei fod yn arbrofi ar ffyrdd o anfon negeseuon drwy'r awyr pan oedd ond ugain oed ac wedi creu y set radio syml gyntaf a oedd yn gweithio dros ychydig gannoedd o lathenni yn unig. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o arbrofi roedd wedi gwella'r sustem yn arw a chafodd 'batent' arni ym 1886. Fe geisiodd gael cefnogaeth llywodraeth yr Eidal i'w datblygu ymhellach ond ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb ganddynt.

Roedd ei fam, Annie Jameson, yn sylweddoli pwysigrwydd darganfyddiad ei mab a chysylltodd â'i rhieni, a oedd yn byw yn Lloegr. Awgrymodd nhw y dylai ddod i Lundain, ble y byddai'n haws i gael nawdd i ariannu datblygu'r darganfyddiad. Fe adawodd am Lundain ar Chwefror 2, 1896, a chyda cymorth ei gefnder, David Jameson, a oedd ei hun yn beiriannydd, fe'i cyflwynwyd i Syr William Preece, a fu'n gefnogwr brwd iddo.

Roedd Syr William Preece yn dod o Gaernarfon ac yn Brif Beiriannydd y Swyddfa Bost Cyffredinol Prydeinig. Fe wnaed y trosglwyddiad swyddogol cyntaf yng Ngorffennaf yr un flwyddyn a bu nifer o ddatblygiadau dros y flwyddyn nesaf, yn cynnwys sefydlu'r *Wireless Telegraph Trading Signal Co Ltd*. Adeiladwyd yr orsaf radio sefydlog gyntaf ar Ynys Wyth yn Nhachwedd 1897.

Bu Marconi'n datblygu ffyrdd gwell o drosglwyddo dros y blynyddoedd nesaf a rhoddwyd y Wobr Nobel am Ffiseg iddo ar Ragfyr 10 1909. Cynhyrchwyd y radio VHF gyntaf yn 1916 a gwnaed llawer o'i ddatblygiadau ar ei gwch 'Elettra' a ddefnyddiwyd ganddo fel labordy.

Priododd Marconi ei ail wraig, Countess Maria Cristina Bozzi Scali, ac o'r briodas yma y ganwyd Y Dywysoges Elettra Marconi. Bu Guglielmo Marconi farw yn Rhufain ar Orffennaf 20, 1937.

**Cysylltiad Marconi â'r ardal**

Syr William Preece *(Gweler yr hanes uchod)*

Bu'n byw yng Nghaeathro, ble ceir plac wrth giât ei gyn-gartref. Mae plac amdano hefyd ar Swyddfa'r Post yng Nghaernarfon

**Gorsaf Radio Cefn Du**

Sefydlodd Marconi orsaf radio ar lethrau'r Cefn Du uwchben Ceunant, Llanrug, yn 1915 gyda'r bwriad o anfon negeseuon i'r Amerig. Yn fuan wedyn clywodd un o beirianwyr Marconi, a oedd ar y pryd yn gweithio yn Awstralia, negeseuon gwan yn cyrraedd y wlad honno.

Yn 1918 aeth Marconi, gyda chymorth offer mwy pwerus, ati o ddifrif i geisio anfon negeseuon i Awstralia. Prif Weinidog Awstralia ar y pryd oedd Billy Hughes ac oherwydd y cysylltiad Cymreig dangosodd ddiddordeb mawr ym menter Marconi ac roedd yn bresennol yn y Ceunant pan anfonwyd y neges dyngedfennol i Wahroonga am 3:15 yn y bore ar 22 Medi 1918.

Deallir nad oedd yr amgylchiadau yn ddigon da i siarad yn uniongyrchol ag Awstralia, ac am hyn fe anfonwyd y neges mewn Côd Morse.

Bu'r orsaf yn gweithredu tan fis Mai 1939 ac mae tystiolaeth fod 30 o ddynion yn gweithio yno yn 1932, y mwyafrif yn bobl leol.

Bu sawl defnydd gwahanol i'r orsaf ers hynny, yn cynnwys storfa powdr gwn, cartref ac ysgol i blant o Lerpwl yn ystod y rhyfel, cartref gwyliau, ysgol breswyl, clwb ac yn bresennol mae'n lle i bobl gadw'n heini.

**Cyfeillion Marconi** – Trefnwyr yr ymweliad

Mae Cyfeillion Marconi ar hyn o bryd yn y broses o gael ei sefydlu fel elusen, gyda'r pwrpas o gadw mewn cof bwysigrwydd yr Orsaf Radio ar lethrau Cefn Du, Ceunant.

Yr Ymddiriedolwyr yw:

- 2 berson ar ran Mrs Jo Harris (Awstralia);
- 2 berson ar ran Cyngor Cymuned Waunfawr;
- 2 berson ar ran Cyngor Cymuned Llanrug;
- 2 berson ar ran Antur Waunfawr;
- 2 berson ar ran Clwb Radio'r Ddraig.

## Baw Cŵn yn Llanrug

**MAE cyngor Cymuned Llanrug yn bygwth dwyn achos yn erbyn unrhyw un sy'n mynd a'u cŵn am dro i gaeau chwarae. Daw'r bygythiad yn sgil pryder ynglŷn â phobol sy'n cerdded eu cŵn yng nghaeau chwarae Llanrug a Chwm y glo ac yngadael baw ci ar eu hôl.**

**Nawr bydd llythyr yn cael ei ddosbarthu i'r holl drigolion sy'n byw wrth ymyl y caeau chwarae yn eu rhybuddio yn erbyn mynd a'u cŵn yno am dro. Dywed y llythyr bod cŵn wedi eu gwahardd o'r caeau ar sail peryglon iechyd i blant a bydd y Cyngor yn dwyn achos yn erbyn perchnogion sy'n fwriadol yn mynd a'u cŵn i'r caeau hynny.**

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa**
**nos Fercher, 6 Hydref**
**am 7.30 o'r gloch**
**yn y Sefydliad Coffa, Llanrug**
***Dowch yn llu i gefnogi eich papur***

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 315**
**HYDREF 2004**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**


**Tim Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Elfion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, HYDREF 18**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, HYDREF 28**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 18 Hydref | 28 Hydref | Llanberis | Gwilym Evans | 870625 |

## APÊL
### Plîs, plîs, plîs

Newyddion ac erthyglau erbyn y dyddiad ar ben tudalen 2, **bob mis**, os gwelwch yn dda, neu efallai na fyddant yn yr Eco.

10 Bro Elidir
Dinorwig.

Annwyl ffrindiau,

Dymuna teulu y diweddar Gwilym Davies, 10 Bro Elidir Dinorwig ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli un a oedd mor annwyl iddynt.

Mae yr holl ymweliadau, galwadau ffôn a'r cardiau, sydd llawer iawn rhy niferus i'w hateb yn unigol, wedi bod yn gysur mawr inni fel teulu.

Diolch am yr holl roddion er cof am Gwilym, gwerthfawrogwn eich haelioni a'ch caredigrwydd yn fawr iawn.

Diolch i'r Parch Hugh John Hughes a'r Parch W.J. Lewis am eu gwasanaeth a'u cyfeillgarwch. Diolch i Mr Gwynfor Jones a Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am ymgymeryd âr trefniadau mewn modd mor sensitif ac urddasol.

Diolch yn fawr iawn i bawb

Y Teulu

---

3 Cae Sarn
Y Groeslon
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Mae Clwb Camera Caernarfon a'r Cylch eisoes wedi ailagor ei ddrysau ar gyfer y tymor newydd. Cynhelir ein cyfarfodydd yn ystafell gymuned Llyfrgell y Sir, Stryd Bangor, Caernarfon, bob nos Lun am 7.30. Hefyd bydd Arddangosfa blynyddol y Clwb yn agored yn Oriel y Llyfrgell hyd at 16 Hydref, lle gellir cael blas o waith yr aelodau presennol.

Amcan y Clwb, a sefydlwyd yn 1976, yw hybu a chefnogi'r ymarfer a'r mwynhad o ffotograffiaeth yn y fro mewn amrywiol ffurfiau, yn cynnwys dulliau traddodiadol a digidol.

Dymunaf estyn croeso i bawb i'r arddangosfa ac i weithgareddau'r Clwb yn ystod y tymor i ddod. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â mi ar (01286) 831038.

Yr eiddoch yn gywir

John Roberts
Cadeirydd

---

Minallt
7 Bro Elidir
Dinorwig

Annwyl Olygydd,

Plygu'r Eco. O do, eleni eto fe ddaeth problemau hefo'r plygu. Yn gyntaf daeth yr Eco allan yn ystod mis y gwyliau lle yr oedd yn anodd cael neb i ddod i'w blygu. Am yr ail flwyddyn yn olynnol, nid oedd y Ganolfan ar gael. Cefais alwad gan un o'r pwyllgor y nos Fawrth cyn y plygu yn dweud nad oedd y Ganolfan ar gael, ac os y byddai ar gael fe fyddai'n rhaid talu £13. Tybed a oes rhyw ardal arall yn gorfod talu pan yn plygu'r Eco yn eu pentrefi? Diddorol fuasai cael gwybod.

Ond ar nodyn mwy calonnog, daeth Eglwys Cefn y Waun i'r adwy, a chefais gynnig dau adeilad arall, a'r tri am ddim. Diolch i swyddogion y tri adeilad yma, sydd yn amlwg hefo dipyn o feddwl o'r ardal yma.

Pensiynwyr oedd pawb a ddaeth i blygu oddigerth am un. Cymerwyd o 4.30 hyd wedi naw o'r gloch i'w blygu, ac yr oedd pawb wedi blino, gan fod rhai dros eu pedwar ugain. Diolch o galon iddynt, plant yr ardal odddynt wrth gwrs, a dim am adael yr ardal i lawr.

Carwn ddiolch i'r ychydig eraill a ddaeth i wneud y gwaith dros bentref Dinorwig. Ond er y blinder a'r chwys, cafwyd dipyn o hwyl a rhyw sgwrs am hyn a'r llall. Diolch i Jean Parc Jones am wneud ei gwaith mor urddasol ag erioed. Diolch hefyd i Swyddogion Eglwys Cefn y Waun am roi benthyg y festri inni, ac hefyd i'r gofalwr, Mr Neville Thorman Jones, am baratoi ar ein cyfer mor drylwyr.

Yn gywir iawn
Marian Jones

## Er côf am Owen Glyn Jones (Now, Hogia' Llandegai)

Mud yn awr i lawr y lôn,
Neuaddau Tai Newyddion.
Â'n plwyf yn gwylio'r llwyfan
Mewn hiraeth, mor gaeth yw'r gân.
Ei chwiban ni chlywn chwaneg,
Neu ei gân, na'r organ geg.

Cynnes yw'r cofion cynnar,
A'r sgiffl ddaeth i'n milltir sgwâr.
Ar y daith drwy hiwmor da
Agos o hyd fu'r Hogia'.
Yn eu ffordd, ymestyn ffin,
Eu gorau roed i'w gwerin.

Am ergyd, 'William Morgan',
Yn ei gap yn actio'r gân.
Neu hudol sŵn yr adar,
Dwyn i gôf y doniau gwâr.
Yn ei gamp, ei ddoe fu'n gwau
A roddwyd drwy ei wreiddiau.

Y mae gwên er siom y gwâr,
Heulwen ar ddydd o alar.
Yn selog croeswn Ogwan
Yna'i lwch yn ôl i'w Lan-
I'w fynwent, ei fro'n blentyn,
Yno'n glyd bydd Owen Glyn.

RLJ

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


FINE ART TRADE GUILD

**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

**Harddwch eich cartref gyda**

***FFENESTRI CELTIC WINDOWS***

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**
**CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*

**HEN YSGOL GLANMOELYN**
**LLANRUG LL55 2RG**

NHBC

**(01286) 678618** (dydd)
**(01248) 670081** (nos)

# YN Y GORS, HEN YW'R GWERSI

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, denwyd torf dda yn y glaw i gystadleuaeth gneifio Gors Bach, Llanddeiniolen. Denwyd cystadleuwyr o bellafoedd, yn ymestyn o Ben Llŷn, De Cymru a Seland Newydd – cartref ysbrydol y grefft. Unwaith eto noddwyd y diwrnod yn hael gan unigolion a busnesau yn gysylltiedig â byd amaeth. Ymysg y cystadleuwyr roedd sawl enw â chysylltiadau lleol – yn enwedig rhai â'u gwreiddiau yn Nant Peris.

Yng nghyswllt y gystadleuaeth, ceir tair adran – Iau, Hŷn ac Agored. Nid oedran sy'n pennu'r dosbarthiadau ond y gwahanol lefel o brofiad yn y maes.

Er mai diwrnod glawog groesawodd pob un, bu'r stêm yn codi drwy chwys bôn braich, a chafodd y gwylwyr wledd o gystadlu. Drwy'r prynhawn bu llygaid praff Norman Davies, Llanrwst, yn brysur yn beirniadu. Diolch i Wil Arthur am 'fenthyg' y defaid.

Daeth cae Elwyn Fachell yn gyrchfan bwysig i'r ardal. Ni welwn werth yr hen grefftau nes eu colli, yn enwedig ar adeg pan mae sawl agwedd o fywyd cynhenid cefn gwlad yn cael ei erydu.

Yr enillwyr! Yn yr adran Iau, y tri blaen oedd Elwyn Griffith (Lôn Glai): 34.8 eiliad, Rhys Owen (Sir Fôn): 37.8 eiliad, a John Williams (Cefn): 43.9 eiliad. Y dasg oedd cneifio dau oen, ac fel y cneifiwr lleol cyflymaf roedd Elwyn yn derbyn £30 a'r wobr gyntaf o bump 'comb' cneifio.

Bu cystadlu brwd yn yr oedran Hŷn, gyda dau gneifiwr o Seland Newydd yn cipio'r prif wobrau. Eto y dasg oedd cneifio dau oen. Yr enillydd oedd Simon Hales (£100): 26.5 eiliad. Yn ail oedd Clyde Rennie: (£50) ac yn drydydd Daniel Hughes: (£25) un o deulu Brychyni. Enillydd y wobr o £30 i'r cneifiwr lleol cyflymaf oedd Adam Russell.

Roedd cryn edrych ymlaen i'r adran agored ac ni siomwyd y dorf gyda record newydd yn cael ei sefydlu. Y cneifiwr dawnus a gneifiodd y ddau oen mewn 22.1 eiliad oedd Hywel Roberts, Cerrig y Drudion (mab Geraint, Dyffryn Mymbyr). Ar ben y wobr o £200, cafodd fonws o £50 am dorri'r hen record o 23.37 eiliad.

Digon o brês i dorri syched am wn i! Yn ail oedd Nigel Brown o Seland Newydd: 23.4 eiliad, ac yn drydydd Nicky Beynon (Abertawe): 23.8 eiliad. Uchafbwynt y cystadlu yw'r gystadleuaeth Handpiece, ble mae'n rhaid cneifio tair dafad.

Roedd y dechneg i'w chanmol a'r wobr yn mynd i Nigel Brown.

Unwaith eto mae gweledigaeth a menter William Davies wedi talu ar ei ganfed ac edrychwn ymlaen at ymgiprys y flwyddyn nesaf. *'Wil will fix it!'*

Diolch arbennig i'r noddwyr canlynol: Wil Arthur; Carlsberg UK; O.P. Evans; R.L. Davies, Plant Hire; Hughes Meats; Geraint Owen (Carpedi); Henninger Ltd.; Dunne ac Ellis (Cyfrifwyr); R.G. Williams (Cludwyr Anifeiliaid); H.F. Owen, Tithebarn; Idris Morris (Fachell); Trevor Grey, Gwynedd Landscapes; M.W. Pritchard a'i Feibion; Elfed Griffith; Elwyn Jones (Fachell); ac Aaron Hughes.



*William Davies yn cyflwyno wobr i Hywel Roberts, Pencampwr y diwrnod.*



*Yr enillwyr lleol yn yr adran 'Iau'. John Cefn, Rhys Owen, Elwyn Griffith a cneifiwr y dyfodol efallai.*

# Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

## RHUBANAU HIRION – LLYSIEUYN MÔR



Gwelais ddefnyddio **wymon**, gan fod iddo'i gryfder ran potash a nitrogen, fel gwrtaith i'r ardd, ond ar lan y môr yn bennaf y digwyddai hynny ac y mae fy nhama'd cof yn deillio'n ôl i'r chwedegau cynnar yn y ganrif ddiwetha'! Erbyn hyn, diogelir cynefinoedd ym myd Natur, a go brin bellach y gwelir cludo *gwymon* mewn berfa i'r ardd gefn, a diau bod hynny ynddo'i hunan yn beth da. Mae 'na beryg mewn gor-ddefnyddio deunydd crai, a hynny heb gynnig dim byd oll yn ei le. Ail-gylchu ydy' popeth y dyddiau yma. Do, fe weddnewidwyd cryn dipyn ar ein tameidiach byd, a chyn belled ag y mae ail-gylchu yn bod, – dim ond crafu'r wyneb, fel rhyw gyw iâr di-brofiad, a wnaethom hyd yma yng Nghymru. Ond diolch i'r rhai a fentrodd. Mae llawer iawn o waith i'w gyflawni eto. Argyhoeddi pobol yn un peth. Cael sêl a bendith ran gweithredu polisiau cadarn. Mi rydym fe pobol yn llawer rhy barod i eistedd ar ein tina' heb feddwl am yfory. Ond hwyrach mai chwi sy'n iawn ac mai byw heddiw ar ei hyd heb gynllunio'r un gronyn am yfory yw'r polisi gora'.

Yn ddiweddar tra'n ymgomio hefo siopwr, a oedd wedi ei eni mewn pentref tra enwog yn Arfon, holais ef i'r perwyl 'a oedd hen bobol Aberdaron yn rhoi unrhyw bwyslais ar ddefnyddio *gwymon* i broffwydo'r tywydd?' A'r ateb gwreiddiol sobr a gefais oedd 'Roeddan yn sicr! Yr hen bobol ynte!' Ia, cynllunio'n bendifaddau am yfory.

*Gwymon?* O'r dosbarth *algae*, a *gwyg y môr* y'i gelwir mewn rhai ardaloedd yn yr henwlad.

*Nid yw'n anodd dod o hyd i **wymon** ar lan y môr. Rhubanau hirion o liw gwyrdd tywyll yw gwymon. Gwelwn wymon o fath arall. un brown a phothellau bach arno. Tyf rhwng: y creigiau a thynnir ef i'r traeth gan y llanw. yn enwedig pan fydd y môr yn stormus.*

Nia Tomas ac Audrey Williams.
*Llyfr Natur*, 1960.

Yn *Yr Hydref*, 1932 datgelir am un math o ***wymon*** *os bydd y pledrenni'n wlyb neu'n ystwytho, tywydd mawr a ddaw'n union. Ac i'r gwrthwyneb hefyd, os bydd y gwymon yn galed neu'n sychu. gallwn ddisgwyl tywydd braf cyn bo hir,* ac ebe Elisabeth Stanley yn *Y Byd Byw* (1), 1949 *gelwir y gwymon brown yn **forwyal**. a'r mwyaf yw'r **morwyal cnotiog** gyda'i **thallus** tebyg i gortyn a'i chwysigod llai wedi eu gosod bob yn ddwy... ar y **thallus**.*

Enwau eraill ar rai wymon ydyw Gwymon Corniog; Corn Wymon; Cornwyg; Gwymon Danheddog; Gwymon Jeli; Gwymon Troellog; Morwyal Bylchog; Morwyal Codennog; Gwymon Codog Mân; Morwyal Sianelog; Morwyal Rhychog; Morwyal Cnotiog; Gwymon Codog Bras; Gwymon Lledr; Gwymon Dryll Melys.

Meddylier am yr holl gyfoeth o ran enwau, a'r holl wymon sy'n cynnal bywyd yn nyfroedd y moroedd, er enghraifft yr holl grancod bychain, y pryfed cennog, sêr brau, a'r cregyn gleision ieuainc sy'n byw yn eu plith. Mynd â gwymon adra er mwyn cadw llygaid barcud ar y tywydd, a ninnau hefo proffwydwyr a daroganwyr taledig yn y cyfryngau? Un tama'd arall? A gwneud hynny heb feddwl 'r un iotyn ein bod yn creu prinder! Na! Craffwch! Astudiwch! Gwerthfawrogwch. Cofied bod eraill yma heblaw nyni ac yfory yn galw bob amser ar inni beidio â dinistrio heddiw.


**DARLITH FLYNYDDOL REHOBOTH NANT PERIS**

ar achlysur canmlwyddiant Diwygiad 1904

Nos Wener, 15 Hydref 2004
am 7.30 o'r gloch
yn y capel
Darlith gan y Parchg Dafydd Job, Bangor
'J. T. Job a'r Diwygiad ym Methesda'

*Darperir lluniaeth*

# CHWILOTA

## 'MISS KELLOG'

**Dros y flwyddyn ddiwethaf cawsom gryn ohebiaeth gan wahanol ddarllenwyr y golofn am gysylltiadau Americanaidd. Felly mae hi'r mis hwn hefyd, gan roi sylw i ferch fach o'r Waunfawr a wnaeth enw iddi ei hun dramor., ac a enillodd yr enw *'Miss Kellog'* (y dref, nid y creision yd!).**



Mrs Menna Williams, Minffordd, Llanrug ddaeth ar draws toriad o hen bapur newydd gyda llun ac adroddiad am y ferch hon. Mae'n debyg fod yr adroddiad yn dyddio o gyfnod ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac felly'n nesu at fod yn gant oed erbyn hyn. Nid yw safon y llun yn dda iawn, ac ymddiheuraf am hynny.

Ganwyd E. Frances Williams yn y Waunfawr tua dechrau'r ganrif ddiwethaf, yn ferch i Richard Williams, Penygraig. Richard Williams, Penygraig oedd enw ei thaid hefyd. Mae'n amlwg i'w rhieni ymfudo i'r America, ac ymsefydlu yn ardal Wardner, Idaho. Mewn gwahanol gyngherddau a chyfarfodydd cerddorol yn yr ardal honno, gan gynnwys trefi Kellog a Spokane, y gwnaeth y ferch fach ei henw fel adroddwraig a chantores, a buan y rhoes y papurau Americanaidd y teitl *'Miss Kellog'* iddi. Yn ôl yr adroddiad, bu'n *'dyddori cynulleidfaoedd anferth yn y wlad bellenig.'* Byddai cadeiryddion y gwahanol gyfarfodydd yn ei chyflwyno'n aml fel un a anwyd yng Nghymru, *'the home of that rugged leader, Lloyd George'.*

Mae'r adroddiad yn diweddu gyda'r canlynol: *'Wrth adrodd "The Ship of State" tynodd y ty i lawr, a chafodd gymeradwyaeth fyddarol. Cyflwynodd y cadeirydd dusw o flodau iddi. Gwaeddodd un dyn 'Gelwch arni i ganu "America"; yna daeth i'r llwyfan a chanodd nes creu brwdfrydedd mawr. Ym mha le bynnag y gwasanaetha, caiff gymeradwyaeth anarferol o wresog, a bydd raid iddi ail-ymddangos.'*

Ei hoedran ar y pryd oedd deuddeg, felly, gallai rhai o'i phlant fod yn fyw heddiw yn America, ac mae'n eithaf posibl fod rhai o'i theulu yn parhau yn ardal y Waunfawr. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn gwybod mwy o'i hanes? Diddorol hefyd yw'r ffaith mai yn Wardner, talaith Idaho roedd y teulu'n byw. Roedd Wardner hefyd yn digwydd bod yn enw ar dŷ yn Llanrug. Tybed a oedd cysylltiad rhyngddynt?

**Cenhadon o Lanrug?**

Os oes rhywrai o ddarllenwyr 'Llanw Llŷn' yn darllen y golofn, efallai y gallwch daflu rhywfaint o oleuni ar y wybodaeth isod. Digwyddais ddod ar ei thraws wrth chwilio cofnodion cyfrifiad 1881 am Ynys Enlli. Mewn lle o'r enw 'Mission House' ar yr ynys, roedd dau berson a anwyd ym mhlwyf Llanrug yn byw, sef William T. Jones, 34 mlwydd oed, ac Elizabeth Jones, 32 mlwydd oed. Nid oedd yr un o'r ddau yn briod, ac nid oes unrhyw wybodaeth ar y cofnodion cyfrifiad i ddangos fod perthynas rhyngddynt. Mae'n bosibl eu bod yn frawd a chwaer, ond nid yw hynny'n cael ei gofnodi.

Beth oedd y 'Mission House', a pham fod dau berson ifanc di-briod o Lanrug yn byw yno?

**Dosbarthiadau'r Gaeaf**

Mae Coleg Menai yn cynnal dosbarthiadau dros y deg wythnos nesaf i'r rhai sydd â diddordeb mewn hanes lleol a hel achau. Bydd y dyddiadau cofrestru eisoes wedi bod, a'r cyfarfodydd cyntaf wedi eu cynnal (os bydd digon o fyfyrwyr wedi dangos diddordeb) erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ddod o'r wasg. Rhag ofn fod rhai ohonoch wedi methu'r hysbysebion neu wedi meddwl nad yw'n bosibl ymuno ar ôl i'r dyddiad cofrestru fynd heibio, dyma'r manylion:

Llanberis: Bob nos Iau o 7.00 hyd 9.00 yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn y Llyfrgell, Ffordd Capel Coch. Hanes Lleol. Cwrs deg wythnos.

Deiniolen: Bob nos Fercher o 7.00 hyd 9.00 yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes, Tŷ Elidir. Hel Achau. Cwrs deg wythnos.

Caernarfon: Bob nos Lun o 7.00 hyd 9.00 yng Ngholeg Menai, Y Maes. Cyflwyniad i Hel Achau. Cwrs deg wythnos.

Ni chynhelir dosbarth yn ystod hanner tymor, sef yr wythnos yn cychwyn ar 25ain o Hydref.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â safle Coleg Menai yng Nghaernarfon. Ffôn: 01286 673450.

**Ymateb i Fanion Medi**

Yn anffodus, doedd dim ymateb i unrhyw un o'r 'manion' a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf, felly, does dim i'w adrodd am darddiad yr enw 'Corra Linn' ym Methel; am berchnogaeth Yr Offis Fawr yn Llanberis nac am adeiladau eraill o fewn y fro wedi eu gorchuddio â llechi. Ac ni chafwyd unrhyw enghraifft o englynion na phenillion coffa i gymeriadau neu grefftwyr o'r fro. Tybed a fu'r cyfnod byr o dywydd braf yn ormod o sioc i bawb?

Gan fawr hyderu y bydd y dychweliad i'r tywydd (gwlyb) arferol yn hwb i rai ohonoch sgwennu pwt ar bapur neu godi'r ffôn gydag unrhyw wybodaeth neu ymholiad am agwedd o hanes bro 'Eco'r Wyddfa'. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515).



Derbyniwyd y lun uchod gan Miss Ann Owen, Llys y Gwynt, Penisarwaun. Does ganddi mo'r syniad lleiaf ble tynnwyd y llun, na phwy sydd ynddo. Mae'n ddigon posibl, wrth gwrs, nad llun o'r ardal hon ydyw.

Mae'r cwmni o weithwyr (?) fel pe baent o'r tu allan i neuadd bentref neu neuadd eglwys. Beth tybed yw arwyddocad y ffaith fod y mwyafrif ohonynt yn gwisgo dillad gwyn? A pham fod croes wedi ei marcio ar rai aelodau? Mae eu hoedran yn amrywio, ond does yr un ohonynt yn ymddangos yn ifanc iawn. Os oes rhywun o'r darllenwyr yn adnabod unrhyw un o'r rhai sydd yn y llun, neu yn gallu lleoli'r adeilad, byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw wybodaeth.

## UN FUNUD FACH

**PA FATH O... ?**

Ella mai deud dim fyddai orau. Byddai hynny'n sicr yn fwy diogel. Wedi i mi orffen sgwennu'r golofn hon bydd wythnos gyfan cyn y bydd neb ohonoch yn ei darllen. Ac mae wythnos yn amser hir. Bu pob munud fel oes i Kenneth Bigley a'i deulu yr wythnos hon, a phwy a ŵyr beth fydd hanes y dyn hwnnw erbyn y gwêl y golofn hon olau dydd? Mewn gwirionedd does wybod beth fydd ei hanes erbyn y byddaf wedi gorffen sgwennu. Rwyf fi fel chithau mae'n debyg wedi gweddïo dros y dyn hwn o Lerpwl yn ystod y dyddiau diwethaf yma, a fedra i wneud dim ond dal i weddïo drosto.

Mae meddwl am yr hyn sy'n digwydd iddo yn codi cyfog arnaf. Mae'r ddau Americanwr a herwgipiwyd gydag ef wedi eu lladd yn y modd mwyaf barbaraidd posibl. Ac mae pryder gwirioneddol mai'r un fydd ei ran yntau.

Gwelwyd dyn ar ei waethaf eto'r dyddiau diwethaf yma a chlywyd pob math o gwestiynau. Pa fath o fyd ydy hwn? Byd ag iddo lawer o boen a gofid, lle mae plant bach yn cael eu llofruddio mewn ysgol yn Beslan a dynion yn cael eu dienyddio mewn modd cïaidd yn Baghdad. Pa fath o bobl all wneud pethau hyn? Pobl benboeth, pobl eithafol meddir. Ond beth bynnag yr achos y mae'r bobl hyn yn ymladd drosto, a beth bynnag y cam neu'r anghyfiawnder a brofwyd ganddynt, does dim modd cyfiawnhau eu troseddau ffiaidd. Gweithredoedd pobl ddrwg, pobl bechadurus ac annuwiol ydynt.

A'r hyn a ofynwyd hefyd gan lawer yw pa fath o Dduw all ganiatáu'r fath bethau? Mae'n gwestiwn teg ac yn gwestiwn gonest a meiddiaf gynnig ei ateb mewn brawddeg neu ddwy. Y Duw sy'n abl i wneud unrhyw beth a fynn. Y Duw sydd wedi rhoi rhyddid i bobl i benderfynu drostynt eu hunain sut i ymateb i'w ddeddfau. Y Duw sy'n dal pobl yn gyfrifol am eu pechodau wrth iddynt gam arfer y rhyddid hwn, ac a fydd yn eu cosbi'n dragwyddol am y pechodau hynny. Y Duw sy'n tristáu wrth weld dioddefaint y diniwed a'r gwan. Y Duw sy'n casáu pob math o greulonder ac anhyfiawnder. Y Duw a garodd y byd gymaint fel y caniataodd i'w Unig Fab ddioddef y gwaethaf y gallai pobl ei wneud iddo yntau er mwyn cynnig gobaith i bechaduriaid. Y Duw sy'n hiraethu am weld pobl yn troi oddi wrth ddrygioni, ac yn dod i gymod ag ef trwy Iesu Grist. A'r Duw yr ydym yn cydnabod yn ostyngedig y mae ei ffyrdd yn ddirgelwch i ni a thu hwnt i'n deall.

JOHN PRITCHARD

# O SIAMBAR SELWYN

Dwi ar gychwyn i Cala Bona. Ble yn y byd mawr mae fanno meddech?Wel tre fach dawel ar ochor ddwyreiniol Ynys Majorca, – taith tua awr o faes awyr Palma. Mi fydda i yn 'nelu am y lle hwn bob Hydref a phob Gwanwyn. Mynd ar ôl i'r pryfed ymadael oddi yno, a chyn iddyn nhw dychwelyd yn y Gwanwyn. Lle i ddiogi a darllen, mwynhau heulwen, nid rhy boeth, a sipian ambell i wydriad o win coch. Dyna fy ffordd i o ymlacio a siarjio'r batris ar gyfer y Gaeaf.

'Dwi'n sylweddoli na fydd hi mor hawdd i mi grwydro cyn gymaint yn ystod y tair blynedd nesa' 'ma, ond fe ddisgwylir i mi ymweld â'r gwledydd Celtaidd, Rhaid fydd i mi hefyd gadw fy ngair a mynd i'r eisteddfodau a'r cymdeithasau yr wyf eisoes wedi addo mynd iddynt. 'Dwi wedi penderfynu ymweld â phob eisteddfod leol sydd yn nalgylch Eryri a'r Cyffiniau yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd. 'Dwi'n gwybod y bydda i'n ymweld â rhai ohonyn nhw fel beirniad, ond dwi'n edrych ymlaen at gael mynd i rai fel gwrandawr yn unig hefyd. Mae o'n fwriad gennyf i ymweld âr eisteddfodau lleol ym Môn yn ogystal.

Mae yna rai eisteddfodau bach, sydd ddim o bosib, yn aelodau o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, wel da chi ymunwch. Cysylltwch â Swyddog Datblygu y Gogledd: Mr Trystan Lewis, 52 Rhodfa Overlea, Deganwy, Conwy LL31 9TD. Rhif Ffôn: 01492 592908. Fe gewch chi bob cymorth ynglŷn â grantiau a chystadleuthau arbennig, a hefyd ddyddiadau pob eisteddfod sy'n aelodau o'r Gymdeithas. Hyd y gwela i, dim ond Eisteddfod Gwaun Gynfi, o Fro'r Eco, sy'n aelod o'r Gymdeithas. Mae'r Gymdeithas hefyd yn barod iawn i'ch helpu i sefydlu eisteddfod yn eich ardal. Cysylltwch â Trystan.

Sôn am eisteddfod. Mae'n bur debyg i chi glywed bod ein Prifwyl mewn sefyllfa ariannol go bryderus. Mae'n syndod gen i mai dim ond tua 2000 sydd yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae pawb sy'n aelod o'r Orsedd yn aelod o'r Llys. Mi wn i am eisteddfodwyr ffyddlon, sy'n ymweld â'r brifwyl yn rheolaidd bob blwyddyn, ond eto, tydyn nhw ddim yn ddigon o eisteddfodwyr i ymuno â'r Llys. O ymuno, byddai'r hawl gennych i fynychu'r cyfarfodydd cyffredinol ac i ddatgan eich barn ar faterion ynglŷn â'r eisteddfad.

Mae 'na rai sy'n hynod weithgar ar bwyllgorau sy'n ymwneud ag Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau, ond heb fod yn aelodau o'r Llys. Efallai na wnaethon nhw 'rioed feddwl am ymuno. Da chi ystyriwch y peth o ddifri. Dylai pob eisteddfodwr gwerth ei halen fod yn aelod o'r Llys.

* * *

Un prynhawn braf ym mis Medi, mi barciais y car yn Trego, Bethel, a cherdded ar hyd Lôn Bach Trego, neu Lôn Gwyndy. Doeddwn i ddim wedi gwneud hyn ers blynyddoedd. Roeddwn i'n dueddol o wneud hyn yn weddol aml pan oeddwn i yn un o 'hogia Bethal'. Ar hyd y lôn bach dawel hon y byddwn i yn cael 'cwmni'r awen' yn y blynyddoedd cynnar, ac mae'n bur debyg i mi ennill sawl cadair wrth synfyfyrio ar hyd Lôn Bach Trego.

Cerdded heibio'r Gwyndy a thrwy y twnnel coed sydd wedi tyfu yno bellach, hyd at Bryn Pistyll. Tydi'r cwt rêl ddim yno heddiw. Yno y buom ni yn cadw cwmni i Bob If a fyddai'n rowlio sigarets dail te inni. Roedd rheiny yn gryfach na baco siag Ffred Crydd. Llawer tro y bu i mi gerdded ar hyd Lôn Bach Trego, o gwt rêl Robat If as, a mhen i'n troi a fy stumog fel jeli, a fawr o awydd bwyd ar ôl cyrraedd Bryn Alun.

Heddiw 'does 'na'r un Tarzan yn swingio ar bendil o raff, na'r un Jên yn cuddio yn y dail yng Nghoed y Gwyndy. Tydi trên y Sante Fe ddim yn tuchan ei ffordd rhwng Saron a Bryn Pistyll wrth gludo'r cyfoeth o Glondeic Elidir Fawr i Fanc y Faenol.

* * *

Dychwelyd yn freuddwydiol atgofus i Trego a throi i lawr y llwybr sy'n arwain i'r Felin heli ac at Afon Tyddyn Bach, – Amazon fy mhlentyndod. Canfod fod yma hefyd dwnnel o goed, a dim ond poeriad o ddŵr oedd yn yr afon. Cwbwl amhosibl fyddai gollwng confoi o gychod brwyn o dan y bont heddiw, a'u bomio nhw a mes o'r Goeden Gam.

Ydi, mae'n anodd credu i mi 'nofio' yn nyfroedd yr Amazon hon sawl tro, yn noeth lymun groen, a chael cythral o gerydd ar ôl cyrraedd adre erbyn swper chwarel yn Bryn Alun.

Oedd, roedd dyddiau fy mhlentyndod ym Methel y tridegau yn ddyddiau hapus. 'Roedd sŵn tuchan trên chwarel a sŵn yr esgidiau hoelion mawr yn crafu'r wawr yn rhan o fywyd bob dydd. Bu Lerpwl ag Everton yn chware sawl ffeinal ar y briffordd sy'n rhedeg drwy'r pentre, heb i unrhyw gar ymyrryd a'r gêm am amser maith. 'Roedd mwy o seddau llawn na seddau gwag yn ein capeli. Gwragedd tŷ oedd mamau'r fro, adre yn cynnal gwaith yr aelwyd, yn golchi, trwsio dillad, ac yn paratoi pryd blasus o swper chwarel, a thadau a theidiau'r fro yn arwyr o chwarelwyr i ni'r plant. 'Roedd Rhyl yn bell, a Lerpwl bron ym mhen draw'r byd. 'Roedd Saron yn llawn o siopau, ac roedd 'na blisman yn y pentra, ac mi fydda fo'n galw acw yn weddol aml am fy mod i yn dipyn o droseddwr, yn reidio beic heb olau arno, yn dwyn 'fala', ac yn cnocio drysau.

* * *

Oedd, roedd pethau yn bur wahanol ers talwm pan oedd y lloer yn belen o ddirgelwch a nhad yn nabod Santa Clôs. Pan oedd Coed y Gwyndy yn llawn dirgelwch, ac Afon Tyddyn Bach yn Amazon, a Pharc-y-Wern yn Wembli, – a minnau yn dechrau teimlo mod i eisiau bod yn fardd.

Bryd hynny, 'doedd Cala Bona ddim ar y map.

# Dawnswyr Caernarfon yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Profodd Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch yn un llwyddiannus iawn i griw Dawnswyr Caernarfon a oedd yn cynnwys pum aelod o fro'r Eco, gan iddynt lwyddo i ddod adref wedi cipio pedair gwobr.

Enillwyd yr ail wobr yn y Ddawns Stepio Unigol i ferched gan yr aelod ieuengaf, Anest Eifion, o Benisarwaen, a hyfforddwyd gan ei mam, Judith Harding. Judith hefyd fu'n gyfrifol am ddod a criw at ei gilydd i ffurfio Grŵp Stepio newydd sbon a oedd yn cynnwys Judith, Anest a Cenin Eifion o Benisarwaen ac Einir Wyn o Rhiwlas yn cyfeilio. Braf iawn oedd eu gweld yn profi llwyddiant ar eu hymdrech gyntaf ac yn ennill y drydedd wobr.

Am eu cyflwyniad o'r ddawns Gwenyn Gwent enillodd y grŵp Dawnsio Gwerin, a hyfforddwyd gan Idwal Williams, Llanrug, y drydedd wobr. Profodd Idwal hefyd lwyddiant personol gan iddo gipio'r wobr gyntaf am gyfansoddi dawns wreiddiol.

Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant.

Y mae'r criw eisioes yn edrych ymlaen at y tymor nesaf ac estynnir croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â hwy bob nos Iau yn yr Aelwyd, Caernarfon am 7:30pm.

# Alffa yn Cyrraedd Llanrug

Mae'r cwrs Alffa, sydd yn rhedeg mewn o leiaf 7,000 o eglwysi a chapeli dros Brydain, yn dod i Lanrug fis Hydref.

Mae Alffa yn gyfle i drafod ystyr bywyd a dod i wybod mwy am y ffydd Gristnogol mewn awyrgylch gartrefol. Mae'n gwrs 10 wythnos, gyda lluniaeth ysgafn i gychwyn, fideo neu siaradwr gwadd a thrafodaeth anffurfiol wedyn. Mae Alffa wedi bod yn llwyddiannus ar draws Prydain a'r byd dros y 10 mlynedd diwethaf mewn eglwysi a chapeli o bob enwad Cristnogol. Mae'n gyfle i wrando, i drafod ac i ddysgu, sydd wedi ennill clod gan lawer, gan gynnwys Dr Rowan Williams, arch-esgob Caergaint.


Dyma'r ail dro i grŵp Cristnogol lleol 'Goleuni' redeg y cwrs Alffa, ar ôl cael tipyn o hwyl arni yng nghaffi Menter Fachwen, Cwm-y-Glo llynedd. Dywed Cassie Thomas, cyd-lynydd y grŵp,

'Gwnaethom ni i gyd fwynhau y tro diwetha, a roedd yn braf cael y cyfle i ddod i adnabod mwy o bobl efo diddordeb yn y ffydd Gristnogol yn lleol.'

Mae'r grŵp hefyd wedi cychwyn Clwb Ieuenctid Cristnogol yn yr Institiwt yng Llanrug i blant dros 11 oed yn ddiweddar. Bydd cyfle i'r plant ddod i sesiynnau Alffa y tymor hwn, i gael gweithgareddau a gemau tra bod yr oedolion wrthi yn sgwrsio.'

Mae'r cwrs am ddim ac mae 'na groeso i bawb, boed yn Gristion, an anghredinwr neu'n agnostig. Cynhelir y drafodaeth yn Gymraeg. Bydd yn rhedeg pob nos Sul am 10 wythnos o 3 Hydref, yn yr Institiwt, Llanrug.

Dylai unrhyw un sydd eisiau mwy o fanylion neu sydd eisiau cofrestru ar gyfer y cwrs gysylltu â Casi Thomas ar 01286 871042.



# TAIR CENHEDLAETH YN NEINIOLEN 1971

Cyrhaeddod fy nhad, Gomer Williams, fy mab Jeff, 13eg oed a minnau faes awyr Heathrow ar Orffennaf 22, 1971. Prif bwrpas yr ymweliad oedd i Dad, a anwyd yn America, gael gweld ei dreftadaeth yng Ngogledd Cymru am y tro cyntaf.

Wedi galw ym Manceinion a Rhuddlan i weld teulu, rhaid oedd brysio ymlaen i Ddeiniolen i chwilio am lety, ond nid oedd unman ar gael. Ar y ffordd i Lanberis gwelsom arwydd B.& B. Cae Coch, ac yno cawsom le i aros am y noson. Roedd Dad wrth ei fodd yn cael siarad Cymraeg efo Ken a Pat Jones a'u plant Gary, Anita a Terry. Roeddem mor hapus yno a'r lle mor gyfleus felly yno y buom tan Awst y 6ed.

Dydd Sul aethom i gapel Disgwylfa lle'r arferai'r teulu addoli a lle priododd Taid a Nain yn 1880. Nid oedd Jeff a minnau'n deall llawer ond roedd sŵn yr iaith yn hyfryd. Cafodd Dad amser ardderchog. Gwelsom Miss Parry ar ôl y gwasanaeth a threfnu i fynd i'w gweld hi a'i chwaer nos Fawrth. Aeth dau ŵr â ni o gwmpas y capel. Roedd Dad wedi ei lethu gan emosiwn a dechreuodd ganu emyn ar ei ben ei hun. Llifai'r dagrau i lawr ei ruddiau ac roedd yn amser emosiynol i ni i gyd.

Aeth y dynion â ni wedyn i weld olion Y Gors, sef cartref Nain. Dim ond y sylfeini oedd ar ôl. Yn y prynhawn aethom i chwarel Dinorwig a sefyll ar y llechi gleision gan fwynhau golygfa wych o Lanberis, Llyn Padarn a Llyn Peris. Ar y 27ain aethom i ben yr Wyddfa ar y trên bach. Cawsom dywydd braf nes cyrraedd y copa. Gyda'r nos cawsom ginio yng nghartref Mrs Williams a Miss Parry. Roeddent wedi gwahodd Myfanwy Hughes, cyfnither Dad a'i gŵr William i ymuno â ni.

Drannoeth aethom i Bwllheli i weld cyfnither arall fy nhad, sef Nellie Lloyd a'i gŵr Owen. Roedd Jeff wrth ei fodd yng nghastell Cricieth, a chael gweld bedd y ci ym Meddgelert. Cawsom ginio nos yn 7 Caradog Place gyda Myfanwy a William. Sôn am groeso twymgalon ganddyn nhw a phawb arall o'r Cymry.

Y Sul canlynol, Awst 1af, daeth Mr. William Griffiths, oedd tua 70 oed, o Glwt y Bont i dŷ Myfanwy. Roedd yn cofio fy nhaid, Y Parch John Rhiwen Williams, ddaeth ar ymweliad i Gymru, yn pregethu yng nghapel Disgwylfa yn 1914, yn ogystal â'm hewythr Richard. Aethom i gyd i gapel arall na chofiaf ei enw, erbyn gwasanaeth yr hwyr. Roedd y canu emynau yn wefreiddiol. (Tybed a yw'n cyffwrdd calonnau'r rhai sydd heb waed Celtaidd yn eu gwythiennau?)

Adroddais hanes fy ymweliad i Ddeiniolen yn 1945 wrth Mr Griffiths. Dywedodd mai Rowland Morris oedd wedi mynd â fi o gwmpas y pentref, yna dangosodd i ni y tŷ arall y bûm ynddo, sef tŷ William Rowlands. Erbyn hyn yn anffodus, roedd yn mynd â'i ben iddo. Aeth Myfanwy â ni ar ddydd Mercher, Awst y 3ydd i weld cartref Taid; nid Rhiwen oedd ei enw erbyn hyn ond Erw Fair. Mrs Neli Hughes oedd yn byw yno a dangosodd un o'r llechi yn yr iard ffrynt efo'r llythrennau 'J. W.' wedi eu torri arni. Ar sil y ffenest hefyd roedd 'J. Williams 1879'. Cofiai Mrs Williams ei mam yn dweud mai John Rhiwen Williams a ymfudodd i America arferai fyw yno. Yn y prynhawn aethom i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ar dir Castell y Penrhyn.

Cawsom daith i Fôn ddydd Iau gan alw i weld perthynas arall, Ceinwen Jones a'r teulu. Roedd pont y rheilffordd a groesai'r Fenai yn cael ei thrwsio yn dilyn tân fu arni. Gwelsom ddau lew carreg ger ceg y bont ac adroddodd Dad bennill a ddysgodd ei rieni iddo.

*Dau lew tew, heb ddim blew.*
*Un 'rochr yma, ac un 'rochr drew.*

Dydd Gwener oedd diwrnod croesawu'r Cymry ar Wasgar yn yr Eisteddfod – dyma'n diwrnod mawr ni. Yno y gwelsom gyfnither arall, sef Marion Blythin, roedd hi'n cario'r Corn Hirlas ac yn brysur iawn yr wythnos honno. Daeth Dad yn dipyn o seren am ei fod yn siarad Cymraeg yn rhugl er na fu erioed yn byw yng Nghymru. Cafodd ddau gyfweliad ar y radio, yna bu ar Deledu Harlech. Siaradodd ar y B.B.C. gydag Alun Williams a Mary Middleton. Erbyn dau o'r gloch roeddem ar y llwyfan yn y Pafiliwn ble'r oeddent yn galw'r gwledydd. Roedd yn amser cyffrous iawn i ni. Ar ôl y seremoni aeth y Cymry ar Wasgar i babell i gael te, a daeth yr Archdderwydd i siarad efo ni. Wrth ymadael daeth Owen Edwards o'r B.B.C. i roi cyfweliad arall i Dad.

Cawsom ginio nos yn aml yng ngwesty'r Victoria Llanberis lle bu 'Nhad yn siarad llawer efo'r staff. Y noson honno, ein holaf yng Nghymru, roedd cymeradwyo pan aethom i mewn ar ôl iddynt ein gweld ar y teledu! Daeth dyn o'r enw John Roberts, oedd yn aros yn y gwesty atom, a dweud mai fy nhaid a wasanaethodd yn ei briodas yn Philadelphia – am gyd-ddigwyddiad.


Anodd oedd gadael Cymru ddydd Sadwrn a ffarwelio â phawb. Dyma uchafbwynt ym mywyd Dad, a braint i mi a Jeff oedd cael rhannu ei brofiadau (gydag anogaeth gan Carolyn fy ngwraig a arhosodd gartref gyda'n dau fab ieuengaf.) Bu fy nhad, Gomer John Williams farw yn sydyn 5 mis yn ddiweddarach wedi gwireddu ei freuddwyd oes.

Yn 1999 cefais lythyr annisgwyl gan Wynn Davies o Gaer. Roedd wedi cael llythyr gan Marion a ysgrifennais iddi yn dilyn ein hymweliad â Chymru yn1971. Ers hynny rydym ni a Margaret Wyn Roberts, Caernarfon yn cysylltu trwy e-bost yn wythnosol. Bu Ian, mab Joyce a Katherine, merch Wynn yn aros gyda ni yn Califfornia a gobeithiaf innau ddod i aros i Gaernarfon dros Eisteddfod Eryri. Edrychaf ymlaen i gael cyfarfod mwy o deulu.

JACK WILLIAMS, LONG BEACH.

* * *

Mae Brython Jones, Post Clwt y Bont gynt, yn cofio Jack yn Neiniolen. Pwy oedd y ddau aeth â nhw i weld capel Disgwylfa tybed? Os oes rhywun arall yn cofio'r bobl a enwir, cysylltwch â Margaret ar (01286) 672757. Diolch.



*Teulu'r Parch John Rhiwen Williams: Humphrey, Gomer, Parch John Rhiwen, Parch Richard John, Albert John, Mary Jane.*


Blodau Racca
(ALWYN AND SARAH JONES)
Ffôn 870605
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU



MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:
- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com
Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



Dodrefn Da am Bris Discownt
THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
Ffôn: 01286 879060
Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.
Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrïoedd am brisiau rhad dros ben.
Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.**



# Ar Ben Arall y Lein

Peth rhyfedd yw tipyn o ddŵr, ond yn yr achos yma rwy'n sôn am gryn dipyn ohono, gan ei bod wedi glawio bron yn ddyddiol ers dros bythefnos. Mi fydd yn 25 mlynedd mis Rhagfyr eleni ers imi fod yn Ysgrifennydd y Gymdeithas, a dim ond am flwyddyn y cytunais weinyddu, i helpu allan! Ond, yn ôl at y glaw, eleni yw'r tro cyntaf, o'r holl flynyddoedd, imi weld y Seiont yn gorlifo ei glannau i'r fath raddfa nes llifo drosodd i ffos y felin. Mae'n flynyddol yn llifo dros y caeau a adnabyddir fel Finiog, ond dim drosodd i ochr y ddeorfa. Does wnelo hyn ddim oll â sgota wrth gwrs, ond tipyn o wybodaeth lleol i chi.

Tipyn o hanes eto lleol rwan. Mae'n 12 mlynedd ers i'r problemau gyda llygredd Llyn Padarn amlygu eu hunain. Mae wedi bod yn daith eitha brwnt i geisio cael yr awdurdodau i weithredu ar y broblem, ac mae'r gost wedi bod yn drwm ar y Clwb. Heb gymorth yr ACA sef yr *Anglers Conservation Association*, mi fuasai wedi bod yn ddu iawn, nid yn unig ar y gymdeithas ond ar yr ardal yn gyffredinol. Nid oes ond eisiau taro golwg drosodd ar Lyn Tegid i weld beth all fod wedi digwydd yma.

Fe gostiodd yr achos llys yn erbyn Dŵr Cymru oddeutu £10,000 i'r ACA a'r Clwb. Yn anffodus aflwyddiannus fu'r achos yn gyfreithiol, ond mi wnaeth i'r Bwrdd Dŵr ganolbwyntio ar wneud gwelliannau sylweddol i waith carthffos Llanberis, roedd hyn yn 1995. Cymerwyd bron i dair blynedd arall i'r caniatâd arllwyso gael ei gyrraedd, sy'n dod â ni i 1998–99, dyna pa mor araf mae pethau yn symud yn ein gwlad or-fiwrocrataidd.

Fel engraifft o gladdu pennau yn y tywod, ni chymerodd yr Awdurdod Afonydd, fel y gelwid nhw yr adeg hynny, ond yn awr Asiantaeth yr Amgylchedd, (yr un criw ond enw gwahanol), ran o gwbwl yn y broses, ac wrth edrych ar y dogfennau yn ddiweddar cofiais i mi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, sef y perchenog mwyaf (gyda'r Gymdeithas) ar hawliau'r llyn, am gymorth i dalu am yr achos. Gwrthod wnaeth y Cyngor – dim byd i'w wneud â nhw.

Wrth edrych ar y gwaith sy'n haeddiannol fynd yn ei flaen heddiw i dacluso Llanberis, byddaf yn meddwl wrthyf fy hun, be fuasai wedi digwydd os buasai'r Gymdeithas wedi mabwysiadu'r un agwedd â'r cyrff cyhoeddus. Ond fel yna mae pethau ynde?

Yn ôl ar y presenol, does dim cwestiwn fod y problemau uchod, sydd nawr, gobeithio, tu cefn inni oll, wedi cael effaith negyddol ar ffrwythlondeb Padarn a'r Seiont. Mae'r effaith ar y rhediadau o eog a sewin wedi bod yn drychinebus. Ble roedd tua 200 o eogiaid a rhyw ddau ddwsin o sewin yn cael eu dal yn dymhorol, roedd y daliadau wedi disgyn i ryw hanner dwsin o eogiaid a tua dau ddwsin o sewin.

Yn ffodus, mae agweddau wedi newid yng nghoridorau Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn 1999 fe ddechreuwyd stocio gyda eogiaid a sewin bach. Mae cylch o rhyw bum mlynedd cyn bo rhain wedi tyfu yn yr afon, wedyn mudo i'r môr a dod yn ôl i'r afon yn oedolion, ac fe ladroddwyd cynt, 2004 oedd y flwyddyn i'w gwylio. Yn 2003 un ar ddeg eog a ddaliwyd drwy'r tymor, eleni mae bron hanner cant wedi dod i'r rhwyd yn barod, ac rwy'n falch o fedru dweud bod nifer o'r rhain wedi eu gollwng yn ôl.

Dyma rai sydd wedi cael hwyl arni: Clifford Thomas, Felin gyda phedwar o 5 i fyny at 9 pwys, i gyd o Glanrafon Bach at Llyn Doctor. John, ei fab, un am 7 bwys. Dr Robin Parry, Llanberis, dau o Glan Gwna a Stablau am 6 phwys yr un. Norman Barnes, Caernarfon, chwech i gyd o ardal Llyn Distaw a Llyn Engan, eu pwysau rhwng 5 a 10 pwys. Dafydd Davies, Caernarfon, tri i gyd o Crawia rhwng 6 a 9 pwys. Mervyn Harris, Felin, un am 7 pwys o Glan Gwna. Bryn Griffiths, Caeathro, dau am 5 a 6 phwys, eto o Glan Gwna. Norman Dooley, Caernarfon, un o Crawia am 7 pwys. Carl Hasson, Caernarfon, pedwar o Caeau 'Rafon a Glan Gwna, rhwng 5 a 9 pwys. Malcolm Owen, Caernarfon, un am 8 bwys. Colin Wiliams, Deiniolen, un o Crawia am 7 bwys. Fi fy hun, dim byd – rwy'n rhy brysur yn casglu'r newyddion yma i'r Eco!

Mae'r Seiont hefyd yn gallu bod yn garedig i rai fachu ei eog cyntaf. Dau ddaeth i'm sylw eleni oedd Mark Hughes, Llangollen, gyda un am 10 pwys a Bob Mitchell, Milton Keynes, un am 6 phwys, y ddau o Crawia.

Newyddion ardderchog hefyd yw fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno, o eleni ymlaen, i gasglu a magu eogiaid a sewin bychain i'w gollwng i isafonydd y Seiont, bydd y rhai cyntaf yn barod i'w gollwng tua mis Mai 2005. Gobeithio yn wir fod yr holl anhawsterau a siomedigaethau'r gorffennol nawr wedi eu claddu am byth.

Mae gwaith addasu Melin y Cim yn prysur fynd ymlaen. Rydym rhyw fis ar ei hôl hi ond gobeithio y bydd popeth ar ben erbyn Rhagfyr. Mae'n debygol na fydd yr agoriad swyddogol ddim tan dechrau 2005. Bydd yn barod i dderbyn gwesteion at y Pasg nesaf. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r fenter. Caf roi diolchiadau llawn yn nes at orffen y gwaith.

Huw Price Hughes

# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PROFEDIGAETH. Yr wyf yn sicr ein bod fel pentref yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i Mrs Hannah Roberts, Tŷr Ysgol, a'r teulu wedi iddi golli ei chwaer, Joyce, ar ôl salwch blin a hir. Gobeithio y cewch, fel teulu, nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau du yma. Nawdd y Nef fo arnoch a phob bendith yn eich galar a thristwch.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o Glwb Orwig ar 9 Mai, dangoswyd fideo gan Dennis Glass, o'i wraig, Joan, yn cystadlu ac yn ennill Ras yr Wyddfa i ferched rai blynyddoedd yn ôl. Llongyfarchwyd Eve Breithwaite, Andrew Griffith a Joan Glass ar ddathlu eu pen-blwyddi.

Gwnaed trefeniadau ar gyfer dathlu pedair blynedd ers sefydlu'r Clwb. Trafodwyd hefyd drefniadau ar gyfer gosod Cofeb i'r chwarelwyr. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Betty Lloyd Roberts a Betty Robwerts, a'r enillwyr oedd Terry Taylor, Kathleen Davies a Ray Bower. Gwirfoddolodd rhai o'r aelodau i gasglu o dŷ i dŷ at Age Concern. Fe gafwyd rhai atgofion o ddyddiau pan oedd y chwarel yn ei bri, a dylanwad y gwaith ar yr ardal a'r trigolion, gan Nellie Wyn Jones.

CWYNO. Mae llawer yn yr ardal adref yn cwyno ac rwyf yn sicr ein bod yn anfon ein cofion atynt, ac yn colli eu gweld yn mynd a dod ar hyd yr ardal. Gobeithio y byddwch yn gwella ac y cawn eich gweld allan eto.

Ein cofion at Mrs Katie Lloyd Hughes, sydd ar hyn o bryd yn cartrefu yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis. Mae colled fawr ar ei hôl hi yn yr ardal, ac yn y capel. Ein cofion hefyd at Dafydd John Thomas sydd ar hyn o bryd yn cartrefu yng Nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis. Colled fawr i gapel Sardis hefyd. Dymuniadau gorau iawn i chwi i gyd.


**R.M. (DIC) PARRY**

**PEINTIWR AC ADDURNWR**

*PRISIAU RHESYMOL*

**TAWELFA, PENISARWAUN**

**Ffôn: (01286) 870846**

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 650291**

**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

**Ar Gau**
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

*Silver Star*

**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

Er cof am ein hannwyl chwaer, Joyce, Y Garn, 7 Bryn Moelyn, Llanrug. Priod hoff Islwyn a mam dyner Nest, Wena a Beth, a hunodd yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar 3 Awst, 2004.

Ym mynwes gynnes Iesu
Ymgrymu wnaeth ei phen,
Daeth arwydd o dosturi
A'i dwyn i'r Nefoedd wen.

A'r teulu bach mor ddiolchgar
Am drefn rhagluniaeth Nef.
Ein Duw, nid yw yn fyddar,
Mae'n gwrando ar bob llef.

Daeth trannoeth wedi'r digwydd,
Daeth tradwy yn ei dro,
Daeth hiraeth a llawenydd
I ysgwyd seiliau'r co'.

Daeth noson fythgofiadwy
Ei chludo yn ei harch
I'r Capel canmoladwy,
Ple roedd mor fawr ei pharch.

Ac yno'r dydd dilynnol
Daeth tyrfa gref ynghyd
I dalu teyrnged rasol
I fam oedd werth y byd.

A Gwynfor, y Parchedig
Ddywedodd yn y fan
Fod Joyce yn wraig arbennig,
Un fynnai wneud ei rhan.

Ac yna teyrnged eilwaith
Gan Gracie'r ferch o Fôn,
A dynnodd ddarlun perffaith
O un â'i ffydd yn lôn.

Ar hynny, minnau'n cofio
Am gredo f'annwyl chwaer,
Fel cawn ni gwrddyd eto
O fewn i furiau'r Gaer.

Dros dro mae'n rhaid ffarwelio.
Er tristwch mawr a siom,
Nes gweld ein gilydd eto,
Dydd da, o galon drom.

Ac wedi'r loes a chario'r groes,
Wynebu stormydd bywyd,
Tydi gaiff orffwys weddill oes
Tu hwnt i'r bedd, mewn gwynfyd.

BYTH YN ANGOF
DY FRAWD, DAFYDD CEFN COCH.

**JOYCE**

Bu Joyce a fi yn ffrindiau ers tua pum mlynedd a thrigain, ac ers y dydd i ni ei cholli, 3 Awst 2004, daw amrywiaeth o ddarluniau i'm meddwl.

Y darlun cyntaf a ddaw i mi yw'r un ohoni'n rhedeg i lawr Lôn Bwlchuchaf, a'i gwallt yn chwifio yn y gwynt; yn hwyr, bron bob amser. Roedd ganddi ffordd bell i fynd i bobman; i'r ysgol, i'r capel, i'r Coleg ac i'w gwaith.

Darlun ohonom ein dwy yn mynd i Ysgol Brynrefail, yn fychan ac yn ofnus. Fe'i gwelaf yn ymwthio ataf yn y bws ysgol wrth ddod adref (hwnnw'n orlawn bob amser) ac yn symud pawb o'i ffordd er mwyn dod i sefyll wrth fy ochr. Gwelaf hi ar y cae hoci, hi'n chwarae *centre half,* yn ysgafn ac yn gyflym, minnau'n *full back*, yn llonyddach a thrymach!

Darlun cwbwl arbennig yw'r un ohoni yn ei gwisg briodas wen, a chlwstwr o rosod coch tywyll yn ei llaw (rhosod felly a osodwyd ar ei harch gan Islwyn, wedi bron i hanner can mlynedd o fywyd priodasol hapus). Cofiaf ei gweld yn fam ac yn nain ofalus a chariadus. Bonheddig oedd y gair a ffitiai Joyce bob amser, ar bob achlysur.

Nid wyf yn hoffi cofio'r darlun olaf sydd gennyf ohoni, sef yr un ohoni yn ei gwaeledd. Trwy'r cwbwl, roedd yn siriol a'r wên arbennig honno ganddi i'r diwedd. Bu'n hynod o ddewr yn ei salwch, a bu Islwyn a'r genod yn garedig tu hwnt tuag ati, gan ofalu ei bod yn cael popeth posibl.

Diwrnod du iawn oedd 3 Awst 2004 i mi, ac i holl ffrindiau Joyce. Gorffwysed mewn hedd.

MARGARET CYNFI

DYMUNA Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i ffrindiau am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd wedi marwolaeth ei brawd annwyl, Arthur Ernest Pegler o Fangor. Diolch yn fawr iawn.



*Euros ac Emily ar ddiwrnod ei priodas.*

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Euros W. Williams, Hafle, Rhes Faenol ac Emily LeMarquand o Jersey ar eu priodas ar Awst 21ain yn St. Mary's, Jersey.

Cawsom barti priodas hefyd yng Nghlwb Rygbi Bangor ar Awst 28, 2004. Byddant yn ymgartrefu yn St. Lawrence, Jersey.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Iwan Williams ar ei ddyrchafiad yn Bennaeth Adran Cerdd yn Ysgol Uwchradd Swinton, Manceinion.

HOFFAI Euros ac Emily, Jersey, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, arian a'r anrhegion gwerthfawr o dderbyniwyd ganddynt ar eu priodas. Diolch hefyd am bob cymorth noson y parti yng Nghlwb Rygbi Bangor i rai o aelodau Band Deiniolen ac i Dylan a Meinir, Tros-y-Waen am eu cludo yn y Rolls Royce, heb yn wybod iddynt.

Cawsom noson fendigedig ac roedd yn braf cael gweld pawb unwaith eto, yn cynnwys dau o Awstralia!

CERDDED NODDEDIG. O'r diwedd, ar ôl wythnosau caled o gasglu arian roedden ni wedi llwyddo i gyrraedd ein targed o £3,000.

Diolch yn fawr iawn i bawb yn y gymuned a oedd mor ffeind yn cyfnod ar ôl i fy nhad, Andrew Ward, farw fis Chwefror. Mae pawb wedi bod yn arbennig o dda, ac oherwydd hynny rydan ni wedi casglu £1,000.

Ar y 30 o Mai trefnodd Rachel Ward taith gerdded noddedig gan gychwyn o Ddeiniolen a cherdded i Beaumaris. Y syniad oedd i gerdded o ble'r oedd Andrew Ward yn byw yn ôl i ble cafodd ei eni.

Rachel Ward, Cheryl Ward, Sophie Jones, Chantel Jones, Elen Foulkes, Iwan, Tracey Ward, Judy Ward, Jo Ward, David Ward, Barry Ward, Gethin Roberts, Sue Roberts a Lynda Owen oedd enwau'r cerddwyr a chyda'i gilydd roeddent wedi casglu £2,000.

Hoffem ddiolch i Ysgol Brynrefail hefyd am eu haelioni ac am eu rhodd at yr achos.

Rhoddwyd £2,000 i Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, gyda £1,000 yn mynd i'r Ysbyty Orthopaedic yn Gobowen.

Ar ein ffordd ar y daith penderfynwyd stopio yn Tŷ Mawr, ac mi fyswn yn hoffi diolch yn fawr iawn iddynt am eu caredigrwydd yn rhoi panedi o de a choffi i ni igyd. Diolch yn fawr iawn.

Hefyd hoffwn ddiolch i Champion FM am sôn amdanom ar y radio. Cawsom ni lwyth o gefnogaeth gan y dreifwyr a oedd wedi clywed amdanom ar y radio. Diolch yn fawr iawn hefyd i glwb Karate Llanberis am casglu £250 i Mark Ward, fy mrawd, sydd ar hyn o bryd yn dal yn Ysbyty Gobowen ar ôl iddo gael damwain motor beic ddeg wythnos yn ôl. Bydd hyn yn help mawr iddo.

Eto buaswn yn hoffi diolch yn fawr i Ysgol Brynrefail am fod yna i ni eto gyda'u caredigrwydd yn rhoi caniatad i bawb wisgo dillad eu hunain a chael diwrnod llawn o hwyl a chefnogaeth i Mark. Mi roedd y diwrnod yn llwyddiant a chasglodd yr ysgol £750 iddo, sydd eto yn mynd i fod yn help mawr i Mark. Nid yn unig hyn ond hefyd prynodd yr ysgol oergell iddo. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon ac i'r myfyrwyr i gyd am eu help.

RACHEL WARD


**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
**01286 830 805**



**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

**GWERSI PIANO A CHANU**
Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
FFONIWCH
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
**Eifion Hughes** (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

YSGOL WAUNFAWR. Fis diwethaf cyhoeddwyd enwau derbynwyr gwahanol wobrau Ysgol Waunfawr. Roedd un camgymeriad wedi ymddangos. Dyma'r manylion cywir:
*Tarian Ymdrech:* Shona Morris Bl4
*Tarian Chwaraeon:* Osian Everett Bl4 a Gwenan Williams Bl4.
CLWB 300.
Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst:
£40: Manon Williams, 4 Tai Eilian;
£25: Emrys Hughes, Treflan Isaf;
£10: Mrs Gwen Otten, 4 Pant y Waen.
SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Sefydliad ar ôl gwyliau'r haf yn Festri Eglwys y Waun ar 2 Medi. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl gan longyfarch wyrion rhai o'r aelodau ar eu llwyddiant yn eu harholiadau diweddar. Cydymdeimlodd â Carys Williams, Bontnewydd, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, a hefyd Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd ar golli chwaer yng nghyfraith yn Ffestiniog.
Ms Cleo de Vetio o McMillan Cancer Relief oedd y wraig wadd a rhoddodd sgws i egluro sut yr oedd y gwaith o helpu pobl gyda chancr yn cael ei wneud. Diolchodd y Llywydd iddi.
Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Catherine Jones, gan Hilda Williams.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Hydref, pryd y bydd Mrs Peters o Celtic Flowers yn dangos sut i drefnu blodau. Croeso cynnes i aelodau newydd.
NEWYDDION CÔR Y WAUN. Ailgychwynnodd ymarferion y côr ar nos Sul, 5 Medi. Buom yng Ngwesty Fictoria unwaith eto ar nos Iau, 23 Medi a byddwn yn cymryd rhan mewn cyngerdd at Ymchwil Cancr ym Mhenygroes ar 8 Hydref. Yn anffodus, rydym yn colli un llais bas – mae Selwyn Rowlands o Lanfairfechan yn rhoi'r gorau iddi oherwydd y teithio. Os oes baswr gyda diddordeb mewn ymuno â'r côr, byddem yn falch o glywed gennych. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128.
PWYLLGOR YR EISTEDDFOD. Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor yr Eisteddfod am 8 o'r gloch nos Fercher, 6 Hydref, yn y Ganolfan i ddechrau trefnu yr Eisteddfod nesaf a fydd yn cael ei chynnal yn ystod mis Chwefror neu fis Mawrth 2005. Estynnir croeso cynnes i aelodau presenol y Pwyllgor ac i unrhyw rai sy'n dymuno dod yn aelodau neu gynorthwyo'r Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Os ydych yn methu dod i'r cyfarfod ond yn dymuno cefnogi'r Eisteddfod, croeso i chi gysylltu â'r Llywydd, Mrs Irene Roberts, Pant-teg.
DIOLCH. Dymuna Geraldine, Stephen a Beth, Stad Tref Eilian, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a thrigolion y pentrf am bob arwydd o gydymdeimlad a fu'n gymorth mawr i'w cynnal drwy eu profedigaeth drist o golli Victoria, eu merch a chwaer fach.
CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs B. Westphall, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Kath Tame, Kevin a Joanne, Sŵn y Dail, yn eu profedigaeth drist o golli priod a thad annwyl.
ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Alma Jones, Tan y Fron, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i Mrs Jen Rowlands, Cyrnant Lodge, wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich.
LLONGYFARCHIADAU
PRIODAS. Dymunwn yn dda i Tina Parry, Stad Ael y Bryn, ar ei phriodas â Carwyn Humphreys o Lanrug. Priodas hapus iawn ichi.
DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS Llongyfarchiadau i Elfyn a Menna Griffith, Blaen y Nant, Stad Bodhyfryd, ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.
DYWEDDIO. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Avril Charge, Llifon, ar ei dyweddïad â Dylan Williams o Ddeiniolen.
GENEDIGAETH.
Llongyfarchiadau i Karen a Mark, Stad Bro Waun ar enedigaeth eu merch fach, Emma, wyres fach i Mr David Parry.
DATHLU PEN-BLWYDD.
Llongyfarchiadau i Elgan Jones, Tan y Coed, Stad Bod Hyfryd ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Dymunwn yn dda iti i'r dyfodol, Elgan.
DIOLCH. Dymuna Gwenno Williams, (Syrjyri) ddiolch o galon i'r Doctoriaid a'i chyd-weithwyr yn y syrjyri, ei theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniodd tan bu'n derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.
DYMUNWN YN DDA i Llion Iwan, Afallon, yn ei swydd newydd fel darlithydd yn yr Adran Newyddiaduraeth yng Ngholeg y Brifysgol.
CODI ARIAN AT ACHOS TEILWNG. Drwy wisgo gwisg ffansi i fynd i'w waith fel glanhawr simdde, mae Jonathan Davies, Stad Tŷ Hen, wedi casglu'r swm anrhydeddus o fil a thrideg pump o bunnoedd. Cyflwynodd yr arian i gronfa Wad y Plant, Ysbyty Gwynedd. Dymuna Mr Richards ddiolch i'w gwsmeriaid am eu cefnogaeth i'w apêl.
YSGOL WAUNFAWR.
Mae'r deunaw disgybl bach newydd wedi ymgartrefu'n hapus yma yn y dosbarth Meithrin gyda Mrs Gwenda Griffith. Croeso iddynt i'n plith ac hefyd Mrs Tracy Hughes a Mrs Nia Llwyd Griffith.
Mae'r ysgol yn parhau i dyfu ac eleni mae 153 o ddisgyblion ar y gofrestr – 77 o blant yn yr Aran lau a 76 o blant yn Adran y Babanod. Cewch gyfle i'w gweld i gyd yn y llun ysgol a dynnwyd ar Fedi'r 13eg.
Cawsom wahoddiad ar ddechrau'r tymor i stesion Waunfawr i gyfarch Aelod o'r Cynulliad. Byddwn fel ysgol yn cael gwibdaith i Ryd-ddu yn ystod y mis nesaf. Treuliodd 30 o blant bl 5 a 6 ynghyd â Miss Roberts a Mrs Dafydd dridiau yng Nghwersyll Glan llyn ar ddechrau'r tymor. Cafodd bawb amser da a rhaid eu canmol am eu hymddygiad da.
Ar Fedi'r 16eg daeth rhai o aelodau cast y gyfres Pentre Bach i'r ysgol. Roedd plant yr Adran fabanod wrth eu boddau yng nghwmni Sali Mali, Jac y Jwc ac eraill.
DYDDIADAU I'W CADW MEWN COF
NOS LUN MEDI 27ain am 6.30 pm NOSON GWRICWLAIDD I RIENI. Bydd yr Ymgynghorydd Mr Len Jones yn dosbarthu llyfrynnau dwyieithog ac yn trafod â rhieni sut i ennyn plant i ddarllen.Dewch i gefnogi bydd paned ar gael ar y diwedd.
HYDREF Iaf· bwriadwn gynnal diwrnod 'Jeans for Genes Day' bydd rhyddid i'r plant a'r staff wisgo jeans ar y diwrnod ond bydd raid talu 50c am wneud hynny. Bydd yr arian yn mynd tuag at Ymchwil Clefyd Siwgwr. Gobeithio y gwnaiff bawb gefnogi, gan bod Rhys Thomas yn y dosbarth Meithrin yn dioddef o'r clefyd.
HYDREF 7 fed tynnir lluniau unigol y plant,mae croeso i deuluoedd, yn frodyr a chwiorydd llai ddod i'r ysgol erbyn 8.30am.
HYDREF 18fed Ni fydd ysgol i'r plant gan fod diwrnod hyfforddiant i'r athrawon.
HYDREF 22ain bydd ein gwasaneth Diolchgarwch yng Nghapel Croes-y-Waun am 10.00 o'r gloch.Croeso cynnes i bawb.
HYDREF 22ain Gwyliou hanner tymor hyd Tachwedd y laf.
Mae'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol bellach wedi ei osod yn y neuadd. Bydd yn adnodd amrhrisiadwy i'r ysgol Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r Ffair Haf atr teithiou cerdded noddedig.I)iolch arbennig hefyd i Karen, Carmen a staff y dafarn am gasglu £430 i'r ysgol yn ddiweddar.

## Ras Half Iron Man Costell Sherborne, Dorset 22 Awst 2004

'Mae'n fore stormus,' meddwn wrth Mrs Davies, Stad Bodhyfryd.
'Ydy,' meddai, 'ac rydym ni ar gychwyn i dde Lloegr i gefnogi ein mab, Jonathan, sydd yn cymryd rhan mewn Triathlon yno.
Erthygl ddiddorol i'r Eco am un o blant y Waun, meddwn wrthyf fy hun a dyma hi fel y cefais hi gan ei dad, Geraint Davies, Bod Hyfryd, Waunfawr.

* * *

Wrth gwrs, y rheswm pennaf dros fynd oedd i weld y mab, Jonathan (neu 'Jona' fel y'i gelwir gan pawb bellach) yn cystadlu. Athro mewn ysgol gynradd yn Llundain ydi o erbyn hyn, ac wedi cymryd at wneud Triathlons yn y ddwy neu dair blynedd diwethaf.
Mae Triathlon tua hanner pellter y ras Half Iron Man ac roedd Jona yno gydag amryw o'i glwb yn Llundain, i gyd yn ymdrechu'r ras am y tro cyntaf. Wel, beth ydi'r ras yma? Nofio 1.2 milltir, rasio ar gefn beic am 56 milltir, a rhedeg 13.1 milltir. A dim ond HALF Iron Man ydi hynny; mae 'na rasus o'r enw Iron Man, sydd yn ddwbwl hynna eto!
Fodd bynnag, roedd Sue a mi yno am 6.30 y bore i weld y cychwyn am saith o'r gloch. Roedd y cystadleuwyr wedi bod yno ers tro cyn hynny ac roedd rhyw ddistawrwydd yn yr aer a thensiwn i'w deimlo yn yr awyrgylch fel yr âi bron i ddwy fil ohonynt o gwmpas eu pethau'n ddistaw, gan edrych dros eu beics am y tro olaf a chanolbwyntio ar yr ymdrech o'u blaenau.
Roedd y nofio am gymryd lle

(Parhad ar dudalen 22)

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

# Ysgol Brynrefail

## Croeso'n ôl

I ble'r aeth chwe wythnos? Ymddengys fel ddoe pan oeddem yn ffarwelio ar ddechrau gwyliau'r haf, a dyma ni, unwaith eto ar drothwy blwyddyn ysgol arall. Rydym wedi ffarwelio â hen wynebau, ac yn croesawu rhai newydd. Llongyfarchiadau i bob un o'n disgyblion gweithar a fu'n llwyddiannus yn eu haroliadau TGAU, Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch, a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Eleni rydym yn croesawu sawl aelod newydd i'r ysgol. Bydd Mrs. Sheila Toseland yn ymuno â'r Adrannau Cymraeg a Saesneg a Mr. Penri Jones â'r Adran Wyddoniaeth. Croeso'n ôl hefyd i Miss Sam Jones i'r Adran Ffrangeg ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth.

Ar ddiwedd blwyddyn addysgol bydd pethau'n arafu, cyfle i glirio, cael ychydig o drefn. Ai dyma Frynrefail? Nage siŵr iawn!! Cafwyd Wythnos Drawsgwricwlaidd hynod lwyddiannus, taith ysgol i Alton towers, ac roedd yna un peth arall...... O! ie, GRIS!!!!!!!

## Llwyddiant yn y Genedlaethol

Yn ystod gwyliau'r haf, llwyddodd Anest Eifion, disgybl o Flwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail, i ennill clod aruthrol, trwy ddod yn ail yn y gystadleuaeth stepio unigol i ferched dan 19 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd. Tipyn o gamp!

Dechreuodd Anest glocsio pan oedd oddeutu tair oed, ac erbyn hyn mae hi'n aelod o ddawnswyr Caernarfon ac yn ymarfer ei chrefft yn wythnosol. Hoffai ddilyn gyrfa fel dawnswraig broffesiynol. Edrychwn ymlaen at dy weld ar ein llwyfannau yn y dyfodol agos.



*Anest Eifion.*

## Sôn am Sioe – 'Gris' ydi'r gair!



*Y cast.*



*Y corws a'r dawnswyr.*

Blwyddyn arall, a daeth y cyfle i ddisgyblion Ysgol Brynrefail gyflwyno'r sioe-gerdd boblogaidd, 'Gris'. Am fisoedd, bu'r cast a'r hyfforddwyr yn paratoi'n frwd ar gyfer y perfformiadau ganol fis Gorffennaf. Buont yn hynod o lwyddiannus a chawsom ymateb cwbl gadarnhaol gan y cyhoedd.

Ond, yr hyn a fwynhaodd yr holl gast a'r criw oedd yr ymarferion di-ri. Yn ystod yr ymarferion, cafwyd y cyfle i wneud ffrindiau newydd a chyd-weithio'n hwyliog â'r athrawon. Er fod y gwaith yn hynod heriol a blinedig ar adegau, cafwyd digon o hwyl wrth ddysgu'r caneuon poblogaidd, y sgript llawn hiwmor ac wrth gwrs y symudiadau gwreiddiol. Ond, yn anffodus roedd nifer o'r bechgyn yn cael trafferth gan fod ganddynt ddwy droed chwith... heb enwi neb! Yn sicr, gwelwyd cynnydd aruthrol ym mherfformiadau pob un o'r cast ac ambell un yn synnu, â'u lleisiau godidog a'u dawnsfeydd anfarwol... ynte, Gwion a Rob!!

Heb rithyn o amheuaeth, roedd y cyfnod yn un bythgofiadwy i bawb a fu'n rhan o'r cynhyrchiad. Yn ogystal, roedd yn adeg anodd gyda phawb o'r prif gymeriadau yn sefyll arholiadau allanol. Ond, ni tharfodd hyn o gwbl ar fwynhad y cast o'r sioe.

Hoffem ddiolch o waelod calon i bawb fu ynghlwm â'r sioe, yn enwedig yr athrawon roddodd gymaint o'u hamser prin i'n cynorthwyo. Rhaid diolch i Tammi Gwyn am gyfarwyddo'r sioe mor ddi-lol ac am gyflwyno'r cynhyrchiad mewn modd cwbl broffesiynol.

Yn sicr, dyma sioe fydd yn aros yn y cof am amser hir i'r cast, i'r criw ac i'r gynulleidfa... Sioe a hanner!

HUW FOULKES
A NATALIE ELISHA

**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

**Dylan Griffith**

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

GWYN JONES

**FFENESTRI ERYRI**

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

*PORCHES*

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

## Teithio Ymhell

Ar y nawfed ar hugain o Awst, dechreuodd Cadi Glyn, o Lanrug, ar ei thaith i Seland Newydd i dreulio cyfnod estynedig yno. Roedd Cadi yn ddisgybl ym Mlwyddyn 11 Ysgol Brynrefail, ac ar ôl derbyn ei chanlyniadau TGAU hedodd dros y lli er mwyn gwneud gwaith gwirfoddol mewn canolfan ar gyfer anifeiliaid digartref yn Whakatane. Bydd Cadi yn dychwelyd i Gymru ymhen chwe mis, gyda'r bwriad o ddychwelyd at ei haddysg ac astudio ar gyfer arholiadau safon uwch yn Ysgol Brynrefail.

## Prif Ddisgyblion



*Ceri Wyn Jones, Rob Gaffey, Huw Foulkes a Ceri Meredydd Williams.*

Gyda thymor newydd yn yr ysgol daeth cyfle i fyfyrwyr hŷn yr ysgol ddewis eu prif ddisgyblion. Eleni dewisiwyd Ceri Meredydd Williams o Lanrug yn brif eneth, gyda Ceri Wyn Jones, sydd hefyd o Lanrug, yn ddirprwy iddi. O ran y bechgyn dewiswyd Huw Foulkes o Fethel yn brif fachgen, a Rob Gaffey, hefyd o Fethel, yn ddirprwy iddo yntau. Llongyfarchiadau gwresog i'r pedwar ohonoch ar eich penodiadau.

## Adeiladwaith



*Criw Mr Jones.*

Tymor newydd – pwnc newydd. Eleni am y tro cyntaf yn Ysgol Brynrefail, rhoddir cyfle i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ddilyn cwrs mewn Adeiladwaith, fydd yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig yn y maes. Mr. Henryd Jones fydd yn gyfrifol am redeg y cwrs, ac mae'n ymddangos fod cryn frwdfrydedd yma yn barod. Yn y llun gwelir rai o'r prentisiaid newydd gyda Mr. Jones. Gyda lwc, cawn estyniad arall ar yr ysgol maes o law!!

## Taith Gerdded yr Ysgol



*Samantha Tate, Iwan Williams a Manon Humphreys.*

Yn ystod tymor yr haf, trefnwyd taith gerdded noddedig er mwyn codi arian ar gyfer gweithgareddau all-gyrsiol yr ysgol gan yr Adran Addysg Gorfforol. Sicrhawyd diwrnod sych (gaith anodd!) a mwynhaodd y disgyblion a'r athrawon y daith hyd Lôn Eifion i Gaernarfon.

Llwyddodd disgyblion yr ysgol i gasglu oddeutu £3,000, a chyda rhaglen Punt am Bunt cwmni adeiladu'r Abbey National, saif y cyfansym oddeutu £5,500 – clodwiw iawn!! Cynigiwyd gwobrau i'r disgyblion hynny a gasglodd fwyaf o arian.

Yn y llun isod gwelir y tri casglwr gorau – Iwan Williams o 9 'N' a gasglodd dros £100!!!!, Manon Humphreys, hefyd o 9 'N' a gasglodd £77, a Samantha Tate a gasglodd £73.

Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi'n casglu – mae pob cyfraniad yn bwysig, a bydd eich gwaith caled yn golygu y bydd hi'n bosibl trefnu mwy o weithgareddau ar eich cyfer eleni. Diolch i bawb.

## Chwaraeon

Fel yr aeth yr Eco i'r wasg, daeth newyddion am gemau pêl-droed rhwng Brynrefail ac Ysgol Syr Hugh Owen – adroddiad llawn yn y rhifyn nesaf!!


**Jones & Whitehead** Cyf.

Contractwyr Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Gymru Gyfan

Aelod o NICEIC

Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol

Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):
01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT

website: www.a-v-w.co.uk

Shell HELIX

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH SERVICE



• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

QUALITY HOTEL

Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

# Ysgol Llanrug

YSGOL GYNRADD.

Diolch: Dymuna Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ddiolch am gefnogaeth rhieni a'r pentrefwyr i'r Ffair Haf a gynhaliwyd ddiwedd y tymor diwethaf, ac i bob gweithgaredd a fu yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o weithgareddau yn awr a byddwn yn falch o gael eich cefnogaeth eto eleni.

Cydymdeimlo: Dddechrau gwyliau'r haf daeth y brofedigaeth o golli mam i ran Anti Eirlys y gegin. Cydymdeimlwn â hi yn ei cholled.

Estyn Croeso: Mae'r deg ar hugain disgybl bach yn y Dosbarth Meithrin wedi setlo yn eu cynefin newydd erbyn hyn ac yn mwynhau dod i'r ysgol bob bore.

Estynnwn groeso hefyd i dair athrawes i'n mysg. Mae Mrs Rhian Jones a Mrs Gillian Williams wedi y mgartrefu gyda disgyblion Bl 6 a Miss Gwawr JOnes ym mlwyddyn I.

Yn flynyddol bellach byudd disgyblion Bl 7 Ysgol Brynrefail yn talu ymweliad â'r hen ysgol yn ystod wythnosau cyntaf y tymor, ac nid oedd eleni yn eithriad. Mae y wên ar eu hwynebau yn cyfleu eu hapusrwydd yn eu hysgol newydd.

Mawr hyderwn hefyd bod y plant a symudodd i fyw o Lanrug wedi ymgartrefu yn eu hysgol newydd.

Ymunodd plant bach y Caban gyda disgyblion adran Babanod yr ysgol i groesawu trigolion 'Y Pentre Bach' i'n mysg fore Iau, 16 Medi. Roedd yn werth gweld wynebau y plant wrth i'w harwyr Sali Mali, Jac y Jwc, Pili Pala, Jini, Hemeima Mop a Boclyn ddod i'r neuadd.

Diolch i Llyr Morus Roberts am drefnu y daith.

Glan Llyn: Bu disgyblion Bl 5 a 6 a'u hathrawon yn mwynhau gweithgareddau awyr agored yng Ngwersyll Glan Llyn am ddeuddydd. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, ni wnaeth amharu dim ar yr hwyl o hwylio a chanwio ar Lyn Tegid.

KERBCRAFT. Os buasai Jumbo Jet yn syrthio ar yr M6 a lladd pawb ar ei bwrdd, buasai y newyddion yn llenwi ein papurau newydd am ddyddiau. Os buasai un arall yn syrthio o'r awyr fis yn ddiweddarach, nid yn unig, buasai yna fwy o sylw yn y cyfryngau a'r papurau newydd, buasai cwestiynau yn cael ei gofyn – y rheswm pam fod y ddwy drasiedi yma wedi cael eu caniatáu i ddigwydd. Buasai cwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin, galw am ymddiswyddiad ambell weinidog ac aceri o ddadansoddiadau yn y papurau Sul .Ond fuasai hynny byth yn digwydd. Fuasai yr un wlad waraidd yn caniatáu hyn.

Wel, meddyliwch am Jumbo Jet yn syrthio pob mis – fis ar ôl mis, y flwyddyn yma a'r nesa a'r nesa, dyma syniad ichwi o farwolaethau ar ffyrdd Prydain Fawr. Ffordd arall o edrych arno, mae llond llaw yn marw gyda CJU ac yn cael sylw mawr yn y cyfryngau; mae 10 o bobol yn marw ar ein ffyrdd bob dydd a bron i 100 yn cael eu hanafu yn ddifrifol, gyda dim ond pwtyn bach amdanynt ar dudalen 10! Targed y llywodraeth erbyn 2010 ydyw lleihau marwolaethau a damweiniau difrifol plant i 50%.

Dyma lle mae CYNLLUN KERBCRAFT yn chwarae ei ran.

Hwyrach ichwi weld llawer o fodau bach melyn yn cerdded a chroesi lonydd yn Llanruq yn ystod y flwyddyn diwethaf. Plant Blwyddyn 1 oeddent, yn dysgu sgiliau diogelwch y ffyrdd. Mae'r Ysgol wedi cael ei dewis i fod yn rhan o'r cynllun gan fod y ffyrdd tu allan i'r ysgol yn brysur iawn. Rydym wedi bod yn lwcus iawn yn yr ysgol o'r rhieni sydd wedi gwirfoddoli i fynd â'r plant allan

Mae'r cynulliad yn gobeithio y gwnaiff cyrsiau fel Kerbcraft leihau y nifer o blant sy'n cael eu lladd neu eu anafu mewn damweiniau ffyrdd.

Dyma mae'r cynilun yn ganolbwyntio arno:

- Dylai oedolyn gyd-deithio gyda phlant bach wrth ymyl y ffordd neu pan yn croesi y ffordd.
- Fe ddylech yn wastad chwilio am le saff i groesi'r ffordd, i ffwrdd oddi wrth geir wedi parcio, tro neu rwystr.
- Mae 70% o ddamweiniau yn cynnwys plant yn digwydd ger geir wedi eu parcio. Er hynny weithiau dyma'r unig le, felly mae'r plant yn cael eu dysgu y ffordd fwyaf diogel i groesi rhwng dau gar – ond BYTH heb oedolyn.
- Mae llawer o ddamweiniau yn digwydd pan mae plant yn croesi ger cyffyrdd, gan fod ceir yn dod o fwy na dau gyfeiriad. Mae'r cwrs yn pwyntio allan y ffyrdd i wylio a'r ffordd fwyaf saff i groesi.
- Gwers am oes ydy Diogelwch y Ffyrdd a'r gobaith ydy y bydd y plant sy'n derbyn hyfforddiant yn cofio pan ddont yn ddigon hen i groesi'r ffordd yn annibynnol.




*Mr Ieuan Wyn yn derbyn anrheg arbennig ar achlysur ei ymddeoliad o Ysgol Gynradd Llanrug.*

FFARWELIO GYDA
MR IEUAN WYN

Daeth cyfnod dysgu Mr Ieuan Wyn i ben mis Gorffennaf wrth iddo ymddeol yn gynnar ar ôl deunaw mlynedd o wasanaeth i'r ysgol. Ar ôl pendroni'n hir penderfynodd Mr Wyn ymddeol yn gynnar er mwyn canolbwyntio ar yrfa newydd o ysgrifennu, barddoni a rhywfaint o gyfieithu.

Yn y llun gwelwn Mr Wyn yn derbyn anrheg arbennig gan yr ysgol, sef englyn arbennig gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd wedi ei osod mewn darlun lliwgar arbennig o waith Bedwyr Ap Iestyn a Chatrin Williams.

**Ieuan Wyn**

Ym môn yr hen chwareli – y mae un
Yn mynnu dal ati
Â'r ddawn oedd i'n broydd ni:
Ac o'r llwch, gall greu llechi.

MYRDDIN AP DAFYDD

Wrth ddarllen yr englyn i'r plant diolchodd y Pennaeth, Mr Robin Williams, i Mr Wyn am ei wasanaeth cydwybodol dros y blynyddoedd. Roedd pawb yn dymuno'n dda i Mr Wyn ar ddechrau cyfnod cyffrous arall yn ei yrfa. Gobaith mawr pawb yw y bydd yn gyfnod cynhyrchiol iawn iddo fel bardd.

Yn ystod y gwasanaeth darllenwyd cyfarchion gan gyfeillion eraill i Mr Wyn a ddanfonwyd i'r ysgol mewn ebost.

Dyma gyfarchion Machraeth o Sir Fôn.

**Ar achlysur ymddeoliad Y Prifardd Ieuan Wyn**

Bu yn ddyfal i'r dalar – yn athro
Oedd yn eithriad, moesgar;
Digamwedd a digymar
Prifardd prin o'r werin wár.

O'r ysgol ymddeolodd – a Llanrug
Llawn o raen adawodd,
Yno mi fydd hi'n anodd
Brifardd cu i rannu'r rhodd.

Yn dawel y ffarweliwn – â'r athro
Oedd eithriad, mi gredwn,
Yn hawdd gellir diolch i hwn
A wyliodd rhag iaith aliwn.

Daeth awr dawel ffarwelio – o'r diwedd
Â'r dewin o athro,
Ond bydd tren ei awen o
Yn aros i gyfeirio.

Yn ystod cystadleuaeth pêl-droed Eco'r Wyddfa daeth perl arall gan Richard Llwyd Jones

Ieuan Wyn – Gan ddymuno 'ymddeliad' hir a iachus. Gyda diolch ac edmygedd mewn sawl maes.

Yn yr iaith ces dy drwytho – yn y gwaed
Ysfa'i godi a brwydro
Gyda'r fyddin ddiflino,
Nes daw'r awr i adfer bro.

RICHARD LLWYD JONES

Wrth ymadael cyflwynodd Ieuan englyn arbennig i'r ysgol, oedd yn cloriannu ei deimladau agos am yr ysgol dros y blynyddoed diwethaf.

**Ysgol Gynradd Llanrug**


Deuwch yn gwmni diwyd
– i fydoedd
O brofiadau hyfryd;
Dewch i ysgol llawn golud
I fwynhau'r gorau i gyd.

LEUAN WYN

Yn ystod y gwasanaeth cyfeiriodd Mr Williams hefyd at ymddeoliad Mrs Mair Huws Pennaeth, Cwm y Glo ac athrawes arall a roddodd wasanaeth ffyddlon i'r ysgol.

Dymunodd hefyd ymddeoliad hapus i Mrs Huws, ac atgoffodd pawb y byddem yn edrych ymlaen i weld Mair fel Nain yn danfon y plant i libart yr ysgol yn mis Medi.

Pob lwc hefyd i holl ddisgyblion Blwyddyn 6, criw olaf Mr Ieuan Wyn, wrth iddynt ddechrau cyfnod newydd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

GWYNANT PIERCE

Gynyrchion Goed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 099901

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc




ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCH. Dymuna Islwyn, Nest, Wena a Beth ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu caredigrwydd tuag at Joyce yn ystod ei gwaeledd, yn arbennig i'r cymdogion am eu ffyddlondeb a hefyd i'w theulu a'i chyfeillion. Diolch hefyd i feddygon Meddygfa Waunfawr am eu gofal diflino. Bu'r cyfan yn gymorth mawr iddynt yn eu colled. Casglwyd £1,500 o bunnau er cof amdani, a chyflwynwyd peth ohonynt i Gapel y Rhos, Llanrug, peth i Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, a pheth i Feddygfa Waunfawr. Diolch o galon i bawb.

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu i godi arian tuag at darged Llanrug, sydd oddeutu £9,000, ynghyd â phentref Cwm-y-Glo.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan ar y nos Fawrth cyntaf o bob mis am 7.30 yr hwyr. Erbyn hyn mae sawl gweithgaredd wedi ei drefnu a sawl un ar y gweill. Y bwriad ydyw i fwynhau a chymdeithasu drwy'r gweithgareddau hyn ac i ddod â phawb o bob oed a diddordeb at ei gilydd.

Erbyn hyn mae Diwrnod Coffi wedi ei gynnal a Diwrnod Pêl-droed i'r plant a'u rhieni drwy'r dydd, ar gae Nant y Glyn.

Mae croeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb i gefnogi neu hefo syniadau newydd, i ddod i'r cyfarfodydd. Gwyddom fod sawl un yn y pentref yn cefnogi'r Eisteddfod ond, am resymau personol, na allant ddod i'r cyfarfodydd na'r gweithgareddau. Os dymunwch, fe allwch roi cyfraniad i unrhyw berson a enwir isod, neu yn syth i Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaernarfon.

Bydd gwybodaeth am weithgareddau bob mis yn yr Eco, a byddwn yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y pentref.

Menna Williams, Fferm Minffordd; Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos; Bethanne Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf; Megan Roberts, Gregynog, Pontrhythallt; Anne L. Griffiths, Hawddamor, Ffordd yr Orsaf; Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn; Anwen Owen, 11 Bryn Moelyn; Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn.

ADUNIAD DISGYBLION. Cynhelir Aduniad Disgyblion Ysgol Ganol Llanrug ac Ysgol Bryn Eryr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar 23 Hydref, 2004, i'r rhai a fu yn Standards 5 neu Form 1 rhwng 1949 a 1956.

Bydd Bwffe a Disgo a digon o hwyl am £12. Enwau i Nan Llystyn Evans drwy ffonio (01286) 676331 (gyda'r nos yn unig os gwelwch yn dda) a hynny cyn 10 Hydref.

PRIF DDISGYBLION.
Llongyfarchiadau i'r ddwy Ceri, sef Ceri Meredydd, Glan Gors, a Ceri Jones, Nant, Bryniau Fawnog, sydd wedi eu dewis yn Brif Ddisgybl a Dirprwy yn Ysgol Brynrefail.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwilym Williams, Bryn Eifion, ddiolch am y cardiau, arian a galwadau ffôn er cof am Mrs Ella Parry, Rhuddlan. Roedd Mrs Parry yn chwaer i'r diweddar Jane Williams, Bryn Eifion. Diolch i bawb.

Hefyd, fe ddymuna Eirlys, Dafydd a'r teulu, Berllan, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli Mam a Nain annwyl, sef Nancy Williams o Bontnewydd.

Fe ddymuna Gwyn, Sharon a Dylan ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl iawn, sef Mrs Katie Griffiths, 22 Hafan Elan.

Dymuna Rhian Angharad Jones, 2 Tal y Bont, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed ar 23 Awst.

Fe ddymuna Richard a Meirwen ddiolch o galon i breswylwyr, staff a ffrindiau y Foelas am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Diolch yn fawr am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da ac am y parti arbennig a gafwyd yn y Cartref. Pob lwc i Gareth a Delyth yn eu menter newydd.

DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS. Dymunwn longyfarch Dr Dan a Mrs Hughes, Pant Afon, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod yr haf ac i Mr a Mrs E. Griffiths, Gorwel, ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

CYDYMDEIMLWN â Gwyn, Sharon a Dylan yn eu profedigaeth fawr o golli Mam a Nain annwyl iawn, sef Mrs Katie Griffiths, 22 Hafan Elan.

Hefyd, Mrs Margaret Jacobs, Bryn Eryr, sydd wedi colli ei mam, oedd wedi ymgartrefu yn Nant y Glyn yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn arw â Siân a Hefin yn eu profedigaeth fawr o golli eu mam annwyl, sef Mrs Joyce Williams, 17 Nant y Glyn.

BABI NEWYDD. Croeso mawr i Megan, merch fach Trystan Parry a Melanie, a wyres fach i Myfyr a Wendy Parry, Nant y Glyn.

PRIODASAU. Pob dymuniad da i'r canlynol yn eu bywyd priodasol: Judith Jones ac Andrew Beech, a briodwyd yng Nghapel y Rhos ar 31 Gorffennaf. Maent wedi ymgartrefu yn Seibiant, Ffordd yr Orsaf;

i Dylan Lloyd Jones ac Enyd a briodwyd yn y Gadeirlan ym Mangor (wyres i Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol), maent hwythau wedi ymgartrefu yn Ffordd yr Orsaf.

Priodwyd Meirion, mab Mr a Mrs Melfyn Evans, Tal y Bont, yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Pob lwc i'r ddau ohonynt.

Hefyd i Christopher Pritchard, mab Dennis a Lorna Pritchard, Glanffynnon, sydd wedi priodi â Gemma Owen o Gaernarfon.

DYMUNIADAU GORAU i holl bobol ifanc y pentref sydd ar gychwyn yn y Colegau neu mewn gwaith y mis yma.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus i Mrs Jenny Hughes, 17 Hafan Elan, sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

MAE cyngor Cymuned Llanrug yn bygwth dwyn achos yn erbyn unrhyw un sy'n mynd a'u cŵn am dro i gaeau chwarae. Daw'r bygythiad yn sgil pryder ynglŷn â phobol sy'n cerdded eu cŵn yng nghaeau chwarae Llanrug a Chwm y glo ac yn gadael baw ci ar eu hôl.

Nawr bydd llythyr yn cael ei ddosbarthu i'r holl drigolion sy'n byw wrth ymyl y caeau chwarae yn eu rhybuddio yn erbyn mynd a'u cŵn yno am dro. Dywed y llythyr bod cŵn wedi eu gwahardd o'r caeau ar sail peryglon iechyd i blant a bydd y Cyngor yn dwyn achos yn erbyn perchnogion sy'n fwriadol yn mynd a'u cŵn i'r caeau hynny.

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Mrs Annie Mary Evans, sydd yng Nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn, anfonodd y llun i'r Eco o blant Safon II Ysgol Dolbadarn, yn 1929. Ei diweddar frawd, Richard George Evans, sydd yn eistedd ar y dde yn y rhes flaen. All rhywun enwi rhai o'r plant eraill?

SIOP CO-OP. Siom oedd deall fod siop beics ' Energy Cycles' wedi cau ei drysau am y tro olaf yn Llanberis. Dyma'r trydydd tro i siop o'r fath gau yn y pentref yn ystod y degawd diwethaf ac mae'n eithaf amlwg bellach nad oes galw am y fath wasanaeth yn Llanberis. Mae hyn yn fwy o siom wrth gofio'r ymgyrch fawr a fu gan drigolion Llanberis i agor siop fwyd yn hen adeilad y Co-op dro yn ôl. Bryd hynny penderfynodd cwmni Adwy Cyf, sydd yn rhan o Gyngor Gwynedd, logi'r adeilad ar gyfer gwerthu a thrwsio beics er gwaethaf deiseb a drefnwyd gan y Cynghorydd Trefor Edwards, gyda dros naw cant o enwau yn galw am archfarchnad fwyd yn y pentref. Ond yn ddiweddar, daeth gwybodaeth i law yr Eco fod yna gais arall wedi ei gyflwyno gan gwmni lleol am ganiatâd i agor archfarchnad fwyd o safon yn Llanberis unwaith yn rhagor.

O gofio am y siom, ac er gwaethaf yr ymgyrch a fu dro yn ôl, mawr obeithiwn y bydd y pwerau sydd â chyfrifoldeb am wir anghenion pobl Llanberis yn gwrando ar y farn boblogaidd y tro hwn. Bydd agor siop yn yr hen adeilad hwn yn dod â bywyd yn ôl i ganol y pentref ac yn cynnig gwasanaeth hynod o bwysig i bobl o bob oed. Dywedodd y cynghorydd Trefor Edwards fod nifer fawr o drigolion y fro wedi cysylltu ag ef i annog ei gefnogaeth i gael siop fwyd yn ypentref. Ychwanegodd ei fod yn rhoi ei gefnogaeth llwyr i'r fenter.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.
Cynhelir cyfarfod agoriadol y Gymdeithas am y tymor nos Fawrth, 5 Hydref, yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd y Parchedig Huw Gwynfa Roberts gyda'i 'Gasgliad o Boteli'. Croeso cynnes i'r hen aelodau a'r newydd.



PRIODAS. Yn Eglwys St Isan, Llanishen, ar 21 Awst priodwyd Meinir Angharad, merch Mr a Mrs Arwyn Roberts, 5 Stryd y Ffynnon, gyda Mr Alun Edwards o Lanishen, Caerdydd.

Y morwynion oedd Sara Pepper, Tina Parsons, Amy Edwards a Danielle Phillips. Y gwas priodas oedd Tony Edwards a'r macwyaid oedd Lewis Edwards, Osian Rees ac Alex Phillips. Cynhaliwyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Moat House, Llanedeyrn a byddant yn cartrefu yn Llanrhymni, Caerdydd.

DIOLCH. Dymuna Meinir ac Alun Edwards ddiolch o galon i bawb am y cardiau., anrhegion ac arian a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn Llanishen, Caerdydd, yn ddiweddar.



*Plant Ysgol safon II, Ysgol Dolbadarn 1929.*

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

LLONGYFARCHIADAU mawr i Lois Eifion Jones am lwyddo gyda theilyngdod yn arholiad Gradd 5 Theori yr Ysgolion Cerdd Brenhinol. Hefyd i'w chwaer, Anest Bryn Jones, am lwyddo i gyrraedd safon anrhydedd mewn arholiad piano Gradd I. Da iawn, genod.

YR YSGOL GYMUNED. Mae Annie a Catrin o'r Flwyddyn Meithrin wedi setlo'n dda yn ein plith a gobeithio'n fawr fod y criw a aeth i Ysgol Brynrefail yn hapus a dim yn ein colli'n ormodol.

Estynnir croeso mawr yn ôl i Mrs Jên Morris a Mrs Einir Humphreys ar ôl cyfnod mamolaeth prysur hefo Ithel a Lleu.

Nos Sul, 26 Medi, bu Parti o blant yr Ysgol yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Carnifal yn Eglwys Santes Helen.

Dymunir pob hwyl i ddosbarth Mrs Humphreys pan fyddant yn ymweld â Nant Gwrtheyrn. Bydd mwy o hanes yr ymweliad yn y rhifyn nesaf.

Gobeithio fod Mr Cemlyn Jones wedi mwynhau ei gyfnod yma, yn sgîl absenoldeb Mr Robert Humphreys.

Anfonir ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Humphreys,gan obeithio'i weld yn ôl yn fuan.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned *nos Wener, 22 Hydref am 6.30*yh. Mae nifer o wobrau, raffl, paned a bisgedi. Pris mynediad fydd: Oedolion 50c, Plant 20c.

Cynhelir Ffair Nadolig, *nos Wener, 19 Tachwedd am 6.30* Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Pêl Bonws Loteri. Dyma'r enillwyr lwcus hyd yma:

*Mai*: Jackie Kyle, 9 Bryn Tirion.

*Mehefin*: Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion.

*Gorffennaf*: Judith Harding, Winllan.

*Awst*: Mair Orrock, Glanrafon.

Diolchir i bawb am y gefnogaeth. Mae'r elw yn hwb dda i'r Gronfa.

CYLCH TI A FI.

Mae'r Cylch wedi ailgychwyn ar ôl gwyliau'r haf yn Neuadd yr Eglwys ar brynhawn Mawrth o 1.30 hyd 3.00. Croeso cynnes i unrhyw blentyn cyn oed ysgol ddod gyda rhiant neu warchodwr. Dewch draw am baned a sgwrs tra bo'r plant yn chwarae a chymdeithasu.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Bryn a Nia, Gwêl Elidir, ar enedigaeth eu mab, Liam ar 12 Awst, brawd bach i Emily ac ŵyr i Gwyneth Roberts, Llanrug a Meirion ac Elfrys Jones, Clwt y Bont. Pob bendith i chwi fel teulu.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Ann a Dafydd, Sycharth ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. A llongyfarchiadau hefyd i Sylvia Gartau a Dylan Jones, Caernarfon, hwythau yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Gwydion Rhys, i Sara ac Osian, Llys Arfon, Minffordd, Brynrefail. Pob bendith i chwithau fel teulu.

Y mae teulu Pat a Leslie Larsen yn cynnyddu hefyd ac maent mor falch o groesawu ŵyr bach arall, sef mab i Rheon a Nerys. Ein dymuniadau gorau i chwithau.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Siôn Wyn Jones, Perthi, ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Arloesi Gwledig a Rheolaeth Tir yng Ngholeg Prifysgol Harper Adam, Swydd Amwythig. Pob lwc i ti, Siôn, yn dy swydd newydd fel Syrfewr ar Stâd Halton Hall yn Swydd Caer.

DIOLCH. Dymuna Susan, Stephen, Dylan, Bryn a Ceri a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth annisgwyl. Diolch arbennig i Mr Dylan Griffith, Tros y Waen, am y trefniadau trylwyr.

DIOLCH O GALON. Dymuna Sara ac Osian ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion bendigedig ar enedigaeth eu mab bychan, Gwydion Rhys.

PRIODAS HAPUS. Dymuniadau gorau i Euron, 6 Bryn Eglwys a Jacci Parri ar eu priodas yng Nghaerdydd ddechrau'r mis.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr oedd: Brenda Richardson, 6 Bryn Hyfryd; Gethin Phillips, 7 Tai Arthur; Ron Hughes, 1 Bryn Hyfryd.

Atgoffir chwi yn garedig fod tocynnau raffl ar werth gan aelodau'r Pwyllgor. Gofynnir am eich cefnogaeth hael arferol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Y mae'r Apêl yn agored o hyd, os dymuna unrhyw un gyfrannu, gallwch ei anfon i'r Trysorydd, Leslie Larsen, neu aelod o'r Pwyllgor.

Bu'r Stondin Tombola yn y Carnifal yn llwyddiannus iawn a gwnaed elw o £66 tuag at yr Apêl. Diolch i bawb.

YSGOL SUL BOSRA. Y mae'r Ysgol Sul wedi ailgychwyn a braf gweld y plant yn dod yn ffyddlon. Croesawyd Moi atom, mab bychan Tudur ac Anna Marie, a brawd bach Magi. Cofier bod croeso i unrhyw un ddod i'r Ysgol Sul.



*Elen Huws (Canol) Brenhines y Carnifal a'i gosgordd Tanya a Mared.*

CARNIFAL Y PENTREF. Roedd bwrlwm mawr yn y pentref gydag amrywiol weithgareddau yn ystod y Carnifal. Bu'r Arddangosfeydd lluniau yn ddifyr iawn i lawer ac roedd yr Addurno Ffenestri yn yr Eglwys yn wledd i'r llygaid. Diolchir i'r rhai fu'n ymwneud â'r gwaith yma.

Bu'r Bingo, yr Helfa Drysor, Dawnsio Salsa, Gyrfa Chwist, Noson Gwis a'r Disgo yn llwyddiannus hefyd.

Cychwynnodd y Carnifal o'r Cartref Nyrsio am 1.30, gyda Seindorf Arian Deiniolen. Cafodd Elen Huws, Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd, Tanya a Mared, eu cludo mewn steil yng nghar clasurol gwyn. Dylan Griffiths, Tros y Waen, ar flaen yr orymdaith. Oherwydd y glaw, cynhaliwyd y cystadlu yn y Neuadd Gymuned dan arweiniad Arwel Jones a bu'n waith caled i Dafydd a Manon Dafis feirniadu'r holl gystadleuwyr brwd. Cynhwysir mwy o luniau a rhestr o'r enillwyr yn y rhifyn nesaf.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu nos Sul, 26 Medi, yn Eglwys Santes Helen i gloi'r gweithgareddau. Yr arweinydd oedd Arwel Jones, Cae Eboni a'r organydd oedd Gareth Jones, Llanberis. Cafwyd eitemau gan Gôr Meibion Peris a Chôr yr Ysgol Gymuned.

GWEITHGAREDDAU'R CANRIFAL. Fe garai swyddogion yr Eglwys ac aelodau o Bwyllgor y Carnifal ddiolch o galon i bawb a gymerodd ran, a gyfrannodd ac a gefnogodd y gweithgareddau yn ystod y mis, gan sicrhau Carnifal llwyddiannus dros ben.

COFNODI'R FYNWENT. Yn ystod y misoedd diwethaf bu Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd yn cofnodi'r holl gerrig beddau ym mynwent Eglwys St. Helen. Nod y Gymdeithas yw



*Cai Hywel, Enillydd y Carnifal. Gobaith newydd i dîm Cymru*



*Dion Jones enillydd "Unrhyw bâr". Defnyddiwch eich dychymyg.*



*Seindorf Arian Deiniolen yn arwain yr orymdaith.*

cofnodi holl fynwentydd Gwynedd, ac eisoes cwblhawyd tua 350. Gwaith hollol wirfoddol yw hwn, a chofnodir yr oll sydd ar bob carreg, gan gynnwys camgymeriadau sillafu a gramadegol – ni chywirir dim gan y cofnodwyr.

Cyhoeddir y cofnodi yn gyfrol o bob mynwent yn eu tro gan y Gymdeithas, ac maent ar gael i'r cyhoedd. Yn ychwanegol at hyn mae mynegai ar ddiwedd pob cyfrol, ynghyd â map o'r fynwent, sydd yn gwneud darganfod enw, cyfeiriad, neu fedd neilltuol yn eithaf hawdd.

Bwriad y gwaith yw gofalu bod yr holl arysgrifau ar gof, gan fod traul amser a'r tywydd yn difrodi yr ysgrifen ar y cerrig, ac wrth gwrs, o achos prinder arian a difaterwch, gadewir llawer o'r mynwentydd i fynd yn wyllt.

Gobeithir y bydd y cofnodi yma hefyd o gymorth i haneswyr y dyfodol, yn ogystal â'r miloedd sydd bellach yn ymddiddori yn hanes eu teuluoedd ac yn olrhain achau. Maent hefyd yn hynod ddiddorol i'r trigolion lleol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu copi o gyfrol St. Helen, sydd yn cynnwys pob claddedigaeth hyd at ganol mis Awst eleni, yna cysylltwch â Golygydd Cyhoeddiadau Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, sef Mr Gwyndaf Williams, 1 Tan y Cae, Bethel LL55 1VA (01248) 670170. Pris y gyfrol yw £5.50 gan gynnwys cludiant.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nel Williams, 2 Bryn Tirion ac Alwyn, Pen y Gaer, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu colled enfawr ym marwolaeth Olive. Derbyniwyd dros £3,000 o roddion at Uned Cancr, Ysbyty Glan Clwyd. Diolch yn fawr.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned, *nos Wener, 12 Tachwedd, i gychwyn am 6.00 yh.*

EGLWYS SANTES HELEN. Ffarwelio â'r Ficer, y Parch Ann Howells. Fe gynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn yr Eglwys fore dydd Sul, 19 Medi, i ffarwelio â'r Parch Ann Howells, a fydd yn cael ei sefydlu yn Ficer Plwyfi Llanfyrnach a Llanglydwen nos Wener nesaf, 1 Hydref am 7 o'r gloch yn Eglwys St. Brynaol, Llanfyrnach. Wedi'r gwasanaeth fe gafwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys a chyflwynwyd anrhegion iddi. Diolchwyd iddi am y gwaith da mae wedi ei wneud yn y Plwyf ers tua blwyddyn a hanner. Dymunwn yn dda iddi hi a'i phriod, Euryl, yn eu plwyf newydd yn Sir Gaerfyrddin.

GWASANAETHAU MIS HYDREF.

3: 5.00 Gosber;
10: Gwasanaethau Diolchgarwch.
10.30 Cymun Bendigaid gyda'r Parch Peter Gledhill, Porthaethwy;
3.00 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant gyda Susan Williams.
17: 5.00 Cymun Bendigaid
24: 10.30 Cymun Bendigaid
31: 5.00 Cymun Bendigaid

Cynhelir Ysgol Sul fel arfer am 10.30 bob bore dydd Sul yn Neuadd yr Eglwys, heblaw am wyliau'r ysgol.

Ffair Cynhaeaf. Fe gynhelir y Ffair yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, 11 Hydref am 7.30.

PROFEDIGAETH.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Eirlys Jones, Bryn Hyfryd, yn ei phrofedigaeth o golli modryb agos ac annwyl iawn iddi o Rachub, sef chwaer ei mam. Roedd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 yn 2003.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mary, 4 Bryn Eglwys, hefyd ar ei cholled fawr ym marwolaeth ei mam, a oedd yn byw yn Llandudno.


# BEICS MENAI

1 Cei Llechi, Caernarfon

**01286 676804 • 07770 951007**

**Ffair Nadolig yng Ngwesty Carreg Bran**

**Llanfair Pwllgwyngyll**

**Dydd Sul 31 Hydref**



- *Beics o bob math*
- *Trelars i blant*
- *Beics tynnu i blant*
- *Nwyddau Beicio*


Bargeinion ar gyfer y Nadolig!



# R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360⁰ newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**


# Miss Corona 1951

## gan Y Gwalch

### Y Bedwaredd bennod

Roeddwn yn clywed y cerbydau rheiny yn y lôn bach, y rhai oedd yn darogan anffawd, yr un fath a'r Doile, yn ôl Sinffi Cooper. Ganol nos, yn fy nghwsg, clywais glec uffernol yn diasbedain tros yr holl blwyf. Pan godais ar fy eistedd a'm calon yn dyrnu, roeddwn erbyn hynny yn sicr ei bod yn amser iddynt fynd â fi i ffwrdd. Y tro hwn roeddwn yn clywed lleisiau hefyd, ac roedd hynny'n beth newydd.

Codais ac agor y ffenest fel aorfer. Roeddwn yn dal i glywed y lleisiou, rhai uchel, gwrywaidd. Roedd rhywun yn y lôn yn ffraeo.

Neidiais am fy nhrowsus a gafael yn fy nghoes gaib, a mynd at y giât. Yno roedd dau gerbyd yn smwt yn nhrwynau ei gilydd. Erbyn gweld, Mercedes Uncle Harry oedd un, a fan dyn y *free estimates* oedd y llall. Roedd y ddau yrrwr yn dadlau â'i gilydd fel tincars mewn ffair. Roedd gwaed ar wyneb dyn y fan.

Ar ôl imi gyrraedd tawelodd y ddau. A dyma f'n gofyn i ddyn y fan a fuasai'n hoffi cael ymgeledd i'w wyneb. Doedd y llall ar yr un cyfrif ddim angen cynhorthwy o fath yn y byd, ac aeth yn ei ôl i'w gerbyd i geisio cael hwnnw'n rhydd, ond yr oedd wedi bachu'n solet ym mhen blaen y fan.

Erbyn i mi gael y plymar i'r garafán ac iddo sylwi ar y gwaed ar ei wyneb, dechreuodd weiddi tair torth am geiniog fel petasai wedi syrthio i lawr y Grand Canyon. Roedd yn rhestru'r pethau y buasai'n eu gwneud i Uncle Harry, a hynny heb *estimates* o fath yn y byd. Wrth iddo fytheirio a bygwth, dealiais rhywsut fod Mr James wedi cael noson go galed ar y feiolin ac wedi ei dal hi braidd yn hwyr, o'i fod wedi gyrru ei gar ar ei ben i fan dyn y *free estimates*' a oedd ar ei daith i fwthyn yr hogan goch am ryw fath o wersi eraill.

I dawelu dipyn ar y dyn, dyma fi'n cynnig powlaid o stiw riwbob iddo. Yn y cyfamser dyma fi'n meddwi y buasai'n llawn cystal imi fynd i edrych sut yr oedd Uncle Harry yn dod ymlaen yn y lôn, ond arbedwyd imi'r drafferth.

Daeth rhuthr o'r tu allan, a dyma rywun yn neidio i mewn a'i daflu ei hun ar fy ngwely i. (Roedd y fan honno wedi mynd yn lle poblogaidd iawn efo ymwelwyr yr adeg honno.) Uncle Harry ei hun oedd yno a'i goesau, os yn bosib, yn fyrrach nag arfer. Roedd-o fel y galchen ac yn ymladd am ei wynt, a doedd dim golwg fod yna sbonc o gwbl ar ei gyfyl, heb sôn am ddawnsio Morris. A dweud y gwir, roeddwn i'n credu fod ei galon wedi mynd a dyma fi'n meddwl am y botel rum.

Wedi iddo gael llymaid o hwnnw i lawr ei lwnc, adferodd ei leferydd, ac aeth ar ei lw fod yna ddrychiolaeth mewn gwisg laes wen yn cerdded ar y lôn ac yn dod i'w gyfeiriad. Nid arhosodd i ymgynghori dim a chig a gwaed, achos erbyn hynny roedd wedi mynd i amau mai rhywun yn holi'r ffordd i'r fynwent oedd y ddrychiolaeth.

Doedd-o ddim ond prin wedi dweud ei bwt pan glywsom lais oddi allan,

'Wyt-ti'n meddwl dy fod ti'n cario'r busnes gwely a brecwast 'ma braidd yn bell?'

A phwy oedd yno, yn ei goban nos wen a'r hen reiffl hwnnw ddaeth o'r Transvaal dan ei gesail, ond yr hen Yeoman. Daeth i mewn i'r garafán a gollyngodd Uncle Harry ei wydr rum ar y gwely wrth ei weld. Roeddwn yn gwybod y buasai'r gobennydd yn golchi, ond fedra-i ddim dioddef gweld gwastraff, a chymaint o angen yn y byd.

Wedi i bawb setlo a thawelu, ac i'r ddau yrrwr orffen cyhuddo'i gilydd o yrru yn ddiofal, heb olau, a darganfod am y tro cyntaf fod ganddynt ill dau gyfeilles gyffredin yn byw yn y tyddyn, fedrwn-i ddim llai na chynnig cropar i bawb, gan fod y botel rum wedi dod i'r fei beth bynnag. Ac yno y buom, pawb yn taflu ei bwt i mewn, yr hen Yeoman gan mwyaf yn dal y llwyfan drwy draethu am ei anturiaethau ar y Veldt, a brolio am y nifer o Foers yr oedd o wedi eu sgleisio ym mrwydr Magersfontein. Cyn i ni sylweddoli, roedd y rum wedi mynd a'r haul yn dechrau codi.

Gyda hynny daeth curo ar y drws, a phwy oedd yno ond howsgipar yr hen Yeoman. Roedd wedi dod i chwilio amdano, meddai hi gan feddwl ei fod o wedi mynd i garu efo rhywun arall yn nhraed ei sanau. Wrth gwrs, mynnodd gael eglurhad ar weithgareddau'r noson i gyd. Ar ôl clywed y tystiolaethau amrywiol, mynnodd yr howsgipar mai Uncle Harry a'r plymar oedd wedi cael cam, ac mai fi a'r hen Yeoman oedd ellyllon y ddrama. Gan ei bod hi'n bladras a ddynas, o'r un siort a Marged uch Ifan, dyma ni'n gadael iddi feddwl hynny ar bob cyfrif.

Mynnodd wedyn fod y ddau ddyn yn mynd i'r tŷ i ffonio eu gwragedd a'u plant i egluro ble yr oeddent ac i ddweud fod popeth yn iawn. Gwyliais yr orymdaith yn mynd am y tŷ, y plymar ac Uncle Harry yn dilyn yr hosgipar fel wŷn i'r lladdfa, a'r hen Yeaman yn martsio y tu ôl iddynt yn ei goban, a'i wn ar ei ysgwydd fel grenadier.

Wrth gwrs, erbyn hyn doedd dim o'r nos yn weddill i neb wneud drwg na da, a dyma fi'n penderfynu rhoi'r diwrnod i'r brenin, a mynd i rodio, i chwilio am Sinffi Cooper, er mwyn cael dweud wrthi am helyntion y nos. Dychmygwn hi'n taflu ei phen yn ôl a chwerthin tros y wlad, a'i gwallt du llaes yn crogi yn syth i lawr hyd at hanner ei chefn.

Erbyn i mi fynd i olwg y gwersyll, fodd bynnag, doedd neb yno. Roedd y wagenni wedi mynd, a dim and y cylch tân du oedd ar ôl, i dystio ei bod wedi trigo yno unwaith. Rhoddais gic i'r marwor, ond yr oedd hwnnw hyd yn oed yn oer. Doedd dim golwg o'r patrin chwaith, sef y dail a'r gwellt a'r brigau y byddai Sinffi yn eu gadael ar y llawr i ddangos cyfeiriad ei cherddediad.

Fe'm gollyngais fy hun ar lawr, a'm cefn ar y boncyff hwnnw lle'r oedd hi wedi eistedd mor aml yn dcor pys. Os oedd y lleuad wedi dod â meddyginiaeth i'w theimladau hi, doedd-hi ddim wedi gwneud fawr o les i mi. Cerddais yn ddiamcan ar draws gwlad o gae i goed, —'wn-i ddim yn iawn i ble,— ac yr oedd y gwrychoedd a'r dŵr, a'r haul, a'r gwynt yn llawn o Sinffi Cooper, ac yn y pethau hynny y trigodd hi am amser hir wedyn.

*I'w pharhau*

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CYDYMDEIMLO. Mewn damwain drychinebus ar Ynys Manaw ar 31 Awst, yn 61 mlwydd oed, bu farw Mr John Gareth Owen, 37 Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad ag Ann a'r plant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD. Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus, ble gwnaed elw o £164, yn ddiweddar er budd Eisteddfod Bethel, sydd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn, 13 Tachwedd. Cafwyd ymateb da gan y plant i ymuno â'r amrywiol bartïon. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas nos Fawrth, 19 Hydref, am 7.15 yn Festri Capel y Cysegr, yng nghwmni Elain a Ffion Llwyd, Caernarfon. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Clwb ar ôl toriad dros yr haf a daeth nifer dda o aelodau ynghyd. Croesawyd pawb gan y Parch. Gwynfor Williams, ond fe gafodd un aelod groeso arbennig, sef Selwyn Griffith. Fe'i llongyfarchwyd ar gael ei ethol yn Archdderwydd Gorsedd y Beirdd, yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Braf yw nodi mai yma yn Eryri y bydd ei Eisteddfod gyntaf a dymunwyd yn dda iddo am y tair blynedd nesaf gan Goronwy Jones. Cafwyd lluniaeth blasus wedi ei baratoi gan y merched, a braf oedd cael sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Bydd y cyfarfod nesaf ar 5 Hydref, yng nghwmni Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd. Croeso cynnes i unrhyw aelod newydd.

DIOLCH. Dymuna Alun a Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.



LLONGYFARCHIADAU i Aled Hefin Roberts o Fethel sydd wedi dod yn ail drwy Brydain, ac wedi ennill £500 mewn cystadleuaeth i fyfyrwyr sy'n rhan o gynllun Blwyddyn Mewn Diwydiant y Royal Academy of Engineering.

Mae Aled yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor yn gwneud gradd mewn Cyfrifiadureg a Busnes. Treuliodd flwyddyn yn gweithio yn y Wylfa, ac fel rhan o'i waith, datblygodd wefan fewnol i'w defnyddio yn ystod cyfnod cynhaliaeth pan gaewyd i lawr un o'r adweithyddion. Mae hyn yn brosiect mawr sydd angen tua 1000 o weithwyr dros gyfnod o 6 wythnos. Oherwydd llwyddiant y wefan a'r gwelliant mewn cyfathrebu rhwng gwahanol bersonel, fe arbedwyd £180K i'r cwmni.

Bu raid i Aled fynd i lawr i Lundain ar 9 Medi i roi cyflwyniad i gynulleidfa a beirniaid oedd yn cynnwys yr Aelod Seneddol, Martin O'Neil, a phennaeth Nwy Prydain. Mae Aled yn gyn-ddisgybl o Ysgol Bethel ac Ysgol Brynrefail.

CLWB 100 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Gorffennaf oedd Mrs Nan Owen, Berwyn (141): £50; Mrs Ruby Harrison, Bakita (112): £25; Mrs Meinir Lloyd Jones, 40 Bro Eglwys (48): £10.

Mae croeso i gyfeillion y Neuadd ymuno â'r Clwb am y flwyddyn Awst 2004 i Awst 2005. Gellir cysylltu â Mrs Nan Owen (670673) neu Mr Iorwerth Williams (671231).

PWYLLGOR Y NEUADD. Cafwyd newyddion ardderchog gan y Cynghorydd Huw Hughes mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor y Neuadd. Adroddodd Huw fod y cais am £3,000 o Gist Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus. Gyda chyfraniad o £1,200 o goffrau'r Neuadd, bwriedir atgyweirio ac uwchraddio'r system wresogi, gosod ffenestri a drysau newydd a thrwsio'r to.

PWYLLGOR APEL EISTEDDFOD ERYRI. Cynhaliwyd pwyllgor arall yn ddiweddar. Cafwyd adroddiad o'r pwyllgor arbennig a gynhaliwyd yng Nghaernarfon i adrodd yn ôl o'r cyfarfod tyngedfennol yn Aberystwyth. Drwy Eryri gyfan mae rhyw 75% o'r targed wedi ei gyrraedd, canran sy'n cyfateb i'n hymdrechion ni yn ein hardal. Mae hyn yn galonogol iawn, gyda rhyw £2,400 wedi ei gasglu o'r nod o £3,020. Diolchwyd i bawb a drefnodd ac a gefnogodd y gwahanol weithgareddau yn ystod yr haf.

Cafwyd trafodaeth ar drefnu gwahanol weithgareddau misoedd y gaeaf. Cafwyd amrywiaeth o syniadau ac fe drefnir digon o hysbysebu yn agosach i'r dyddiau.

Bydd y cwisiau poblogaidd yn cymryd lle drwy'r gaeaf, yn amrywio rhwng y Bedol â'r Gors Bach. Y brif digwyddiad cyn y Nadolig fydd Talwrn arbennig. Y bwriad yw ei gynnal ganol Tachwedd ac fe werthir tocynnau ar gyfer yr achlysur.

Mae ambell glwb yn y pentref hefyd am drefnu gweithgaredd mewnol ymysg eu haelodau.

Soniwyd hefyd fod ambell ardal ble na fu 'casglwyr', Apeliaf unwaith eto ar unrhyw un sydd eisiau cyfrannu i gysylltu â mi (670115) fel y gellir trefnu i alw draw.

Y mae'r pwyllgor yn adlewyrchu yr agwedd positif sydd wedi ei ddangos drwy'r ardal. Edrychwn ymlaen felly, nid yn unig i gyfrannu – heibio'r targed gobeithio – ond hefyd i gymdeithasu a mwynhau'r arlwy ar ein cyfer. Cofiwch mae pob syniad a cheiniog yn bwysig. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth at apêl sy' mor hanfodol i ddyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, 8 Medi. Rhoddwyd croeso cynnes i bawb, yn aelodau ffyddlon a rhai newydd, gan y Llywydd, Mrs Rhian Jones. Croesawyd yn arbennig megan Jones a Margaret Druce, sydd yn aelodau newydd eleni.

Llongyfarchwyd plant a phobl ifanc yr aelodau ar eu llwyddiant yn eu arholiadau a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol. Llongyfarchwyd nifer o aelodau am amrywiol resymau:

- Carwyn John am ei gamp o ennill cystadleuaeth Llwyd o'r Bryn yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.
- Alys Jones am ennill gwobr am ysgrifennu drafft o nofel i blant rhwng 9–11 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Liz Watkin ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar;
- Anne a Geraint Elis am ddod yn daid a nain unwaith eto.

Dymunwyd yn dda i Brian ac Eirlys Sharpe ac i Gwyneth Jones ar eu hymddeoliad yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd â Sheila yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr yn ystod yr haf. Dymunwyd yn dda i Mr James sydd yn gwella ar ôl bod yn cwyno'n ddiweddar.

Cafwyd noson hynod o ddifyr a bywiog yng nghwmni Dawnswyr Môn. Mwynhawyd cyflwyniadau diddorol i gefndir y dawnsfeydd, y stepio medrus ac ystwyth yn ogystal â'r cyfeiliant safonol iawn i'r cyfan gan y cerddorion. I gloi'r noson, rhoddwyd cyfle i'r aelodau ymuno yn y dawnsio a oedd yn ddiweddglo bywiog tu hwnt i'r noson. Diolchwyd iddynt gan Glenys Griffith cyn cael paned a lluniaeth ysgafn. Enillwyd y raffl gan Liz Watkin ac Eirlys Williams.

Y mis nesaf, bydd Mrs Margaret Jones, Tregarth, yn cymryd yr awennau i ddangos i'r aelodau sut i baentio ar sidan. Atgoffir yr aelodau i ddod â ffedog, brwsh paentio a hen bot jam efo nhw y tro nesaf ar gyfer cynllunio cerdyn Nadolig ar sidan. Dymunir atgoffa'r aelodau hefyd i gofio dod â chwpan efo nhw er mwyn cae eu paned ar ddiwedd y noson.



PRIODAS. Ddechrau'r mis, yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, fe briodwyd Euron Wyn Griffith (gynt o Fethel) a Jacci Parry. Roedd hon yn briodas go anarferol. Do, fe gafwyd alawon traddodiadol Cymreig ar y delyn, ond yn ogystal fe glywid caneuon poblogaidd y Beatles yn atseinio drwy'r Neuadd. Cafwyd darlleniadau o farddoniaeth yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd Jacci wedi dilyn cwrs arbennig fel y gallai gymryd y llwon yn ddwyieithog. Fe ymunodd y gwesteion i gydganu cân enwog y Beatles: *All you need is love.*

Mae Euron a Jacci yn gweithio gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Euron yn golygu 'treis' i Radio Cymru, ac yn cyflwyno rhaglenni ar Radio Wales. Mae Jacci yn gynhyrchydd/gyfarwyddwr, ac mae'n gyfrifol am raglenni teledu i'r Gorfforaeth.

Roedd yna 160 o westeion yn y briodas ac fe gynhaliwyd y wledd yn y Point ym Mae Caerdydd, lle bu'r dathlu arferol tan oriau mân y bore. Treuliwyd y mis mêl yn America a Hawaii, cyn dychwelyd i'w cartref ym Mhontcanna, Caerdydd. Dymuna Euron ddiolch i bawb o'i ffrindiau am eu dymuniadau da.

**STEPHEN JONES**

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

**(01286) 870 870**
**(01286) 872 491**
**(07770) 265 976**

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYDYMDEIMLWN yn ddwys gyda Heather Jones, Chwiban y Gwynt, ar golli ei brawd ddiwedd mis Awst.

CANLYNIADAU LEFEL A. Llongyfarchiadau i Catrin Evison, Cae Hopcyn ar ei llwyddiant. Bydd hi'n cychwyn astudio Physiotherapi ym Mhrifysgol Salford eleni. Hefyd Eilian Jones, Bryn Edern, fydd yn astudio'r Gyfraith yng Nghaerdydd.

PEN-BLWYDD O BWYS. Llongyfarchiadau i William Williams, Llety, ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

ADREF O'R YSBYTY. Derbyniodd Mrs Eurwen Hughes, Perthi, driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da gweld ei bod wedi dod adref ac yn gwella bob dydd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG hapus i Huw Ceiriog, Erw Wen a Wyn Jones, Erw Wen, y ddau wedi dathlu eu pen-blwydd yn 40 oed y mis yma.

TEULU NEWYDD. Mae Richard, Sara, a'u mab bychan, Peter, wedi symud i fyw i Derwenfa. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn byw yma yng Nghaeathro.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Medi oedd: £40: (47) Norman Davies, 7 Tai Glangwna; £25: (75) Idris Jones, Crud yr Awel; £15: (61) Heather Jones, Chwiban y Gwynt; £5: (56) Alan Griffiths, 6 Tai Glangwna.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Hydref:

3: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Diolchgarwch;
10: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Huw John Hughes;
17: 11.00 Ysgol Sul;
24: Dim Ysgol Sul; 2.00 Parch Dafydd Hughes;
31: Dim Ysgol Sul.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CAE CHWARAE. Cynhaliwyd yn Nhafarn Glangwna ar nos Lun, 20 Medi. Roedd 9 yn bresennol a chafwyd 2 ymddiheuriad. Etholwyd y canlynol: Cadeirydd: Clive James; Ysgrifennydd: Tim Lloyd; Trysorydd: Wyn Jones; Pwyllgor: Eryl Jones, Huw Ceiriog, Alun Roberts, Dewi Jones, Norman Hughes, Jason Jones, Richard Jones, Paris Thomas. Gan fod dwy sedd wag, beth am i ddwy fam yn y pentref gynnig eu henwau?

Y brif drafodaeth oedd union ffurf rhodd Nadolig y Pensiynwyr. Bu lled-gytundeb o blaid cynnig Cinio Nadolig yng nghanol yr wythnos yn Nhafarn Bryngwna, a pheidio â thalu'r rhodd ariannol fel yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAPEL REHBOTH
Dyma'r cyhoeddiadau ar gyfer Mis Hydref:
10 Y Gweinidog.
17 Mr J. H. Hughes, Llanberis.
24: Gwasanaeth Diolchgarwch. Croeso i bawb gymryd rhan.
31: Ein cyn-weinidog, Y Parch John Owen, Rhuthun.

*'Mor hawddgar yw dy bebyll di, O! Arglwydd y lluoedd,*
*Fy enaid a hiraetha ac a flysia am gynteddau yr Arlgywdd!'*

DARLITH FLYNYDDOL Capel Rehoboth, ar achlysur canmlwyddiant Diwygiad 1904–05. Traddodir hon gan y Parch Dafydd Job yn ystod y mis. Gweler yr hysbyseb am fanylion.

NEUADD BENTREF. Ar nos Fercher, 20 Hydref, bydd swyddogion Coleg Menai yn y Neuadd (festri Rehoboth) am 7.00 pm i gyfarfod â thrigolion y pentref er mwyn gweld a ydym yn dymuno manteisio ar gyrsiau a gynigir gan y Coleg. Maent yn fodlon cynnig cyrsiau fel *cyfrifiaduron, canu er mwyn pleser, aromatherapi, clytwaith a chwiltio. Cymraeg i ddysgwyr a ieithoedd tramor* yn y Nant. Gyda'r grantiau sydd ar gael o'r Undeb Ewropeaidd, mae posibilrwydd y gellir cael y cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim.

Bydd y gweithgareddau ar gyfer y plant yn ail-gychwyn ar ôl i'r sgaffaldiau gael eu symud.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Gwenno Pritchard, Tŷ Isaf a Manon Pritchard, Fron, am gael llwyddiant hefo chwarae piano yn ddiweddar. Mae Gwenno wedi pasio ei gradd a Manon wedi pasio ei gradd 2 gydag anrhydedd. Daliwch ati genod!

GŴYL FFAIR NANT
'Er garwed fu'r hin,' llwyddiant fu 'Gŵyl Ffair Nant' eto eleni.

Er gwaetha'r glaw trwm a'r gwyntoedd cryfion, roedd cynulleidfa dda wedi ymgynnull yn Eglwys hynafol Peris Sant i agor y gweithgareddau, gyda Chymanfa Ganu dan arweiniad medrus Lowri Prys Roberts Wiliams a Gareth Jones wrth yr organ. Cafwyd eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Peris a phedwarawd o'r Eglwys.

'Seintiau' oedd thema yr Ŵyl Flodau a hyfryd oedd gweld y trefniadau i gyd.

Brwd fu'r cystadlu eto eleni a'r gwaith i gyd yn gywrain ac yn werth ei weld.

Llongyfarchiadau a diolch i bawb fu'n gweithio mor galed i ofalu fod yr ŵyl mor llwyddiannus.

CANLYNIADAU FFAIR NANT
CYSTADLEUAETH Y PLANT
COGINIO
**dan 11oed:** 6 teisen Tylwyth Teg gyda haen o siwgr
1. Elin Tomos; 2. Ariann Preston; 3. Kate Prtichard
**12 – 16 oed:** Bisgedi o ymenyn a siwgr
1. Manon Pritchard; 2. Sara Parri; 3. Emma Jones
FFOTOGRAFFIAETH
**Dan 11 oed:** Hoff flodau
1. A J Johnson; 2. A J Johnson; 3.Mared Morris.
**12 – 16 oed:** Chi a'ch teulu ar wyliau
1. Elin Morris; 2. Mared Morris.
CELF
**Dan 8 oed:** Llun o'ch anifail anwes
1. Kate Pritchard; 2. Aron Jones;
3. Kate Pritchard.
**8 – 16 oed:** Llun o lan-y-mor
1. Mared Morris; 2. Rhian Morris; 3. Manon Pritchard.
**Dan 16 oed:** Cynllunio poster ar eich cyfrifiadur i hysbysebu Ffair Nant 2005
1 Elin Morris; 2. Gweno Pritchard; 3. Rhian Morris.
CREFFT
**Dan 8 oed:** Dyn bach llysiau
1. Emily Hughes; 2. Megan Pritchard;
3. Liam Hughes.
**8 – 12 oed:** Gardd ar blat
1. Iwan Jones; 2. Gethin Bryn Jones;
3. Sioned Cumberton.
**12 – 16 oed:**Trefniad blodau
1. Rhian Morris; 2. Elin Morris; 3. Emma Jones.
GWNIO
**dan 11 oed:** Doli glwt
1 Sioned Cumberton; 2 Mared Morris.
**dan 16 oed:**
1.Manon Pritchard; 2. Miriam Pritchard; 3. Rhian Morris.
OEDOLION
COGINIO
Cacen siocled:
1 Janice Tomos; 2. Beth Owen;
3. Ceri Morris.
Bara Brith:
1 Betty Humphreys; 2 June Jones; 3. Beth Owen.
Tarten afal:
1. Anne Parry; 2. Janice Tomos; 3. Lyn Jarvis.
6 Sgon gyda ffrwythau:
1. Bev Annwyl; 2. Anne Parry;
3. Sara Stacey.
JAM
1. Anne Cumberton; 2. Alwen Mai; 3. Eirwen Thomas
GWIN A GWIRODYDD
1. Ruth Rowlands; 2. Beth Owen; 3. Beth Owen.
FFOTOGRAFFIAETH
Ffotograff teuluol yn chwarae'n hapus:
1. Helen Jones; 2. Helen Jones.
Ffotograff o Nant Peris gyda cerdyn Nadolig 2005 mewn golwg.
1. Emerson Hughes; 2. Alan Bee.
Darlun o blentyn 8"x10" wedi ei fframio:



1. Iola Owen; 2. Julieta Benn; 3. Rita Morris
CELF
Tirlun o'ch dewis:
1. Alan Bee; 2. Maureen Lenon; 3. Alan Bee.
GWAITH COED
Darn o bren wedi ei droi neu ei gerfio:
1. Gwyn Thomas; 2. David Lee Jones.
TREFNIAD BLODAU
Trefniad gyda'r cynhaeaf mewn golwg:
1. Fiona Jones; 2. Shirley Davies; 3. Margaret Ellis/Ceri Morris.
GWEU
Cardigan neu siwmper ar gyfer babi:
1. June Jones; 2. June Jones; 3. June Jones.
Cardigan neu siwmper sy'n cyfnu Fair Isle ar gyfer plentyn:
1. Dorothy Jones; 2. Diana Davies; 3. Diana Davies.
CROSIO: Doili cotwm:
1. Anne Cumberton; 2. Maureen Lennon; 3. Maureen Lennon.
GWNIO: Doli glwt
1. Fiona Jones; 2. Gwenfron Roberts; 3. Marga Bee.
PWYTH CROES:Llun Anifail
1 Linor Hughes; 2. Linor Hughes; 3. Awen Mai.
PWYTH CROES:Llun o'ch dewis
1 Juilieta Benn; 2. Nacey Jones; 3. Judy Roberts.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i Catherine Pritchard Jones, Kate Tomms, John Meirion Morris, a Sean Kelly am feirniadu'r cystadllaethau

GŴYL FFAIR NANT:
Dechreuwyd wythnos yr ŵyl eleni gyda Chymanfa Ganu yn Eglwys Sant Peris yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris. Codwyd to'r hen eglwys gyda'r canu a braf oedd gweld cymaint o gynulleidfa ar noson hydrefol iawn.

Diolch yn fawr i'r Parch. Deiniol Morgan am ei groeso, i Lowri Prys



Williams am arwain y noson, i'r côr am eu talent ac i'r pedwarawd newydd am eu dewrder! Ac i Mr Gareth Jones a Mrs Hefina Wilson Jones am gyfeilio. Diolch hefyd i gyfeillion eglwys Sant Peris am addurno'r adeilad mor gelfydd a llwgar – roedd y blodau yn werth eu gweld.

Roedd yn rhaid gwisgo dillad

*(Parhad ar dudalen 22)*

**Cais a wrthodwyd gan Wynedd:** Addasu Stiwdio, Bron y Foel, Dinorwig.

**Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:**
Codi Cofeb: Allt Ddu, Dinorwig.
Estyniad: 1, Ysgoldy Cottages.
Estyniad: 2, Ysgoldy Cottages.
Estyniad: Bryn yr Adar, Gallt y Foel.
Addasu gweithdy: Hen Ysgol, Penisarwaun.
Codi Tŷ: Glyn Euron, Penisa'rwaun.
Estyniad: 106, Cae Glas, Rhiwlas.
Estyniad: Ger y Nant, Bethel.
Modurdy: Pen'rallt, Clwt y Bont.
Estyniad: 3, Pant Sardis, Dinorwig.
Estyniad: Blaen Rhôs, Bethel.
Cwrs rhaffau lefel Uchel: Parc Padarn.
Estyniad: Rhôs y Wylfa, Nant y Garth.
Estyniad: 17, Cremlyn, Bethel.

**Llwybrau**
Llwybr ceffyl o **Pen Bryn i Tan Dinas,** mae'r arwydd wedi ei dynnu ac mae angen torri gwair yno – llythyr i Wynedd.
Dywedodd Len Jones nad yw'r gwair wedi ei dorri ar hyd llwybr **Corlan y Bont** – cwyn wedi ei anfon i Menter Fachwen eisioes.
**Cae Hywel i ffordd Stablau** – gwair heb ei dorri.

**Argyfwng yr Eisteddfod** Soniodd Richard Ll. Jones am argyfwng yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gyfeirio at y grant o 5 miliwn i Rheilffordd yr Ucheldir oherwydd eu bod yn denu 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r Eisteddfod yn denu llawer mwy. Cyfeiriodd hefyd bod Eryri yn ardal gymharol dlawd a bod, felly, gwir angen cymorth. Penderfynwyd dweud hyn wrth Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad, ac anfon copi i Alun Ffred AC.

**Fforwm Peris**
Dywedodd Len Jones bod amser eu cyfarfodydd yn anghyfleus iddo eu mynychu. Penodwyd Gwilym Williams i gynrychioli'r cyngor yn ei le.

**Adroddiadau**
Adroddodd Len Jones bod y Swyddfa Bost yn trefnu symud i Dŷ Elidir.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 10eg o Hydref

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



*Stondin Sefydliad y Merched yng Nghaernarfon.*

GENEDIGAETH Croeso mawr i Gwydion, a aned ar Fedi 3ydd i Sara ac Osian Dafydd, Llys Arfon ac ŵyr cyntaf i Dafydd ac Ann Ifans, Penisarwaun.

CYNGOR CYMUNED Yn dilyn ymddiswyddiad Keith Jones, Gorswen, fel yr aelod a gynrychiolai bentref Brynrefail ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, penodwyd Pat Jones, Cae Coch, fel ei olynydd. Dymunwn yn dda iddi yn y swydd o'n cynrychioli fel pentrefwyr. Ymatebwyd i'w chais yn ddiweddar i geisio delio â'r broblem garthffosiaeth sy'n achosi problemau parhaus ger Trem Eilian drwy greu traeniad newydd.

COFION Anfonwn ein dymuniadau am wellhad buan i Muriel Evans, Cae Gwyddel, Dorothy Wager, Tŷ Eryri a Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, y tair wedi treulio cyfnodau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED
APÊL YSGOL PENDALAR: Mae'r gangen y parhau i gydweithio â changen Beddgelert yn yr ymdrech a lansiwyd ganddynt yn ystod yr haf fel rhan o Brosiect Sialens Gymunedol Ffederasiwn Genedlaethol Sefydliad y Merched, i godi arian i Ysgol Pendalar. Mae gweithgareddau wedi bod yn mynd ymlaen ers mis Gorffennaf pryd y trefnwyd lluniaeth yn ystod Ras yr Wyddfa.

Yn ddiweddar trefnwyd arwerthiant o gynnyrch cartref ar Y Maes yng Nghaernarfon, pryd y gwnaed elw o £362. Hyd yn hyn mae ymdrech yr aelodau wedi sicrhau fod dros £5,000 yn y gronfa, sydd yn swm anrhydeddus mewn cyn lleied o amser.

Mae nifer o weithgareddau eraill wedi eu trefnu a'r uchafbwynt fydd y Raffl Fawr a dynnir yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar Dachwedd 8fed – gweithgaredd a gefnogwyd yn hael gan fusnesau lleol. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at sefydlu Gardd Synhwyraidd Dan-do i Ysgol Pendalar.

Mae'r aelodau yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth i'r Apêl arbennig hon.

DYMUNIADAU gorau i Amy Lambert, Glandwr sydd newydd ddechrau ar ei chwrs yng Ngholeg Manceinion.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.
Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri nos Iau Medi 9fed.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Gareth Edwards-Jones, Fferm Penllyn. Emyr Williams oedd yng ngofal y myfyrdod a'r siaradwr gwadd oedd Huw P. Huws, Bethel. Treuliwyd noson ddiddorol yn edrych ar sleidiau amrywiol o Chwarel Dinorwig. Roedd y darluniau wedi eu tynnu dros gyfnod yn dilyn cau y chwarel ac felly maent yn cofnodi llawer i olygfa a chreiriau nad ydynt yn bod mwyach, ac felly yn drysorau i'r oes a ddêl. Gwerthfawrogwyd y cyflwyniad gan bawb oedd yn bresennol.

Ar y terfyn mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Dwynwen Williams a Bethan Lambert. Bydd y cyfarfod nesaf, sef cyfarfod olaf tymor 2004, nos Iau, Hydref 7fed, pryd y disgwylir Edward Morus Jones, Llandegfan i roi sgwrs.

CYDYMDEIMLAD Yn yr oedfa fore Sul, Medi 19eg cydymdeimlwyd â Mr Emyr Williams, Clwt-y-bont yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Heulwen Jones, Caernarfon, ar Fedi 12fed.

OEDFAON HYDREF
3: Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda am 10.00;
10: Gwasanaeth Diolchgarwch am 5.30 dan arweiniad y Parch Dafydd Hughes, Caernarfon;
24: Parch Trefor Jones, Caernarfon, am 5.30.
31: Mr John H. Hughes am 10.00

LLONGYFARCHIADAU i Sara ac Osian Dafydd, Llys Arfon, Minffordd, ar enedigaeth eu mab bychan, Gwydion Rhys, ar Fedi 3ydd. Ŵyr cyntaf i Ann a Dafydd Ifans, Sycharth, Penisarwaun, a Sylvie Gartau a Dylan Jones, Caernarfon. Gor-ŵyr i Wyn Jones a Nicole a Bernard Gartan a gor-ŵyr i Cecile Gartan, Auxerre, Ffrainc.

Dymuna Sara ac Osian ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac yn arbennig i'r bydwragedd a'r meddygon a staff Ward Llifon, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.


**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
➤ Bysiau o 12 i 53 sedd
➤ Teithiau Lleol a Thramor
➤ Gwaith Contract
➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**TAFARN BRYNGWNA**
Caeathro
Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro. Ile ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen, y tafarnwyr newydd.
*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*
Ffoniwch (01286) 674562 i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
**GARTH MAELOG**
51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870840

*Fframia* Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

*Wavell Roberts*
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263




*Mrs Mair Lloyd Hughes a Mrs Lowri Prys Roberts-Williams gyda Mr Brian Jones, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Cwm y glo, ar achlysur ymddeoliad Mrs Hughes ar ôl 12 mlynedd fel Prifathrawes yr ysgol. Roedd Mrs Williams yn gorffen cyfnod fel Clerc y Llywodraethwyr.*

ADUNIAD DISGYBLION. Cynhelir Aduniad Disgyblion Ysgol Ganol Llanrug ac Ysgol Bryn Eryr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar 23 Hydref, 2004, i'r rhai a fu yn Standards 5 neu Form 1 rhwng 1949 a 1956.

Bydd Bwffe a Disgo a digon o hwyl am £12. Enwau i Nan Llystyn Evans drwy ffonio (01286) 676331 (gyda'r nos yn unig os gwelwch yn dda) a hynny cyn 10 Hydref.

YSGOL CWM Y GLO.
Rydym ym croesawu dwy aelod newydd o staff i'r ysgol mis Medi yma. Croeso mawr yn gyntaf i Mrs Eleri Davies, ein prifathrawes newydd. Cyn iddi ddod i Cwm roedd yn ddirprwy yn Nhregarth. Mae'n fam i ddau o hogiau bach ac yn byw yn Rhosgadfan. Croeso hefyd i Mrs Llinos Jones o Lanrug, sydd wedi ymuno â'r ysgol fel ysgrifenyddes a chlerc cinio. Gobeithio y bydd y ddwy ohonoch yn hapus gyda ni yma yn Ysgol Cwm y Glo.

Mae un ar ddeg o blant bach wedi cychwyn yn y Meithrin. Mae Gus, Ceri, Catrin, Liam, Ben, Faith, Ishka, Elliw, Aaron, Llio a Leah wedi cartrefu'n dda yn nosbarth Mrs G Roberts. Daeth teulu bach arall atom hefyd ac mae Lewies, Lizzie a Ryien wedi gwneud ffrindiau yn syth.

Ar nos Iau, Medi 9fed cawsom noson fendigedig yn cyfeiriannu i fyny yn Ninorwic. Daeth nifer dda o deuluoedd draw i gefnogi ac i roi cynnig ar un o'r tri cwrs – yr hawdd, y canolig a'r un anodd ar gyfer oedolion. Diolch o galon i Mrs Simone Simpson am drefnu'r weithgaredd ar ran y Gymdeithas Rieni Athrawon, a diolch i'r rhieni fu'n cynorthwyo ar y noson.

Mae Clwb Campau'r Ddraig yn ail gychwyn ar ôl ysgol ar Fedi 22, a'r weithgaredd y tymor yma fydd Rygbi'r Ddraig.

Cofiwch am Glwb yr ysgol. Mae cyfle i unrhyw un ymaelodi o'r newydd ac mae digon o rifau ar gael – £1 am bob rhif bob mis. Bob lwc i bawb!

Mae Mrs Avril Jones wedi dod i diwedd ei thymor fel Llywodraethwr yn Ysgol Cwm y Glo ac rydym yn diolch o galon iddi am y blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr a roddodd i'r ysgol.

Cyn gorffen hoffem yrru ein cofion at Mrs Mair Lloyd Hughes a ymddeolodd fel Prifathrawes Ysgol Cwm y Glo ar ddiwedd tymor yr haf. Gobeithio eich bod yn mwynhau cael ychydig o seibiant Mrs Hughes a cofiwch alw draw i'n gweld gyda Macsen, Nanw a Tomos.

DIOLCH. Dymuna Ieuan a Gill Rowlands ddiolch yn ddiffuant i drigolion Deiniolen a'r cylch am y caredigrwydd a dderbyniodd Ieuan a'r teulu. Diolch o galon i bawb.

CYDYMDEIMLAD. Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Eluned Thomas, Stryd y Plas, Caernarfon, cyn-athrawes yn Ysgol Cwm-y-glo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, Mr Harries Thomas yn ei brofedigaeth a'i hiraeth. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Peggy Rowlands, 3 Maes Gerddi, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn Henllan.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Barry Hughes, Dôl Afon a Sharon Jones o Gaernarfon ar achlysur eu priodas yng Ngwesty Victoria, Llanberis.



UNDEB Y MAMAU. Cafwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf nos Lun, 6 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Deiniol Morgan yn Eglwys Sant Gabriel. Cafwyd lluniaeth yn yr Ysgol Gymuned a thrafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y Cyngor, a gynhaliwyd yn Y Felinheli yn ddiweddar, gan Mrs Dorothy Jones. Bydd cyfarfod y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog am 10.30 y bore ar 6 Hydref. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Dorothy a Meira, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwen Owen. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Hilda Orritt. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 4 Hydref.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH YR EGLWYS. Dydd Sul, 10 Hydref, cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn ddwyieithog am 9.15 y bore pryd y gwasanaethir gan y Parch Deiniol Morgan. Yn yr hwyr, am 6 o'r gloch, y gŵr gwadd fydd y Parch Idris Thomas, Clynnog.

Nos Lun, 11 Hydref, bydd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned am 7 o'r gloch gyda stondin o gynnyrch cartref a raffl, a bydd yr elw at Eglwys Sant Gabreal.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**



**GORSAF BETROL**
**BERAN**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: (01286) 871521**

**Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod**

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo**
**Cylchgronau • Papurau Newydd**
**Cardiau Penblwydd • Wyau**
**Nwyddau Groser • Melysion**

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**



**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG



**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

**(01248) 361044**

**D. P. OWENS** RHIWLAS

# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION GORFFENNAF 2004**
Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Cymuned (CC), nos Iau y 15ed o Orffennaf, 2004.

**PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU**
**Ward Padarn:** Wendy Hughes, Derek Jones, Helen Sharp, Carys Morris, Fred Owen, Douglas Pritchard, Trystan Thomas
**Ymddiheuriadau:** Ken Jones, Olwen Gwilym.

**CROESO:** Estynnwyd croeso arbennig i Wendy Hughes a Trystan Thomas, y ddau wedi eu cyfethol yn aelodau, ac yn bresennol yn eu cyfarfod cyntaf.

**CADARNHAU COFNODION:** Cadarnahwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau y 24ain o Fehefin, 2004, fel rhai cywir. Cynnig ac eilio: DJ a CM.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

- Y Fynwent: Adroddwyd fod gwair y Fynwent wedi ei dorri, ac fod gwair Cae Frondeg hefyd wedi ei dorri a'i glirio. Mynegwyd fod cyflwr y Fynwent yn ardderchog, er fod rhai darnau wedi eu torri braidd yn isel, 'yng nghroen y baw'.

  Bydd y bwlch yn y wal yn cael ei godi a'i gau yn y dyddiau nesaf.

  Gofynnwyd am i lythyr gael ei anfon i atgoffa yr Ymgymerwyr am Reol Rhif 8, sy'n ymwneud â'r Fynwent. Rhaid cyflwyno cynlluniau a disgrifiadau o bob carreg fedd anghyffredin i'r Clerc er eu cymeradwyo. Cyfyngir uchder pob carreg i 'ddim mwy na phedair troedfedd'.

  Holwyd hefyd beth fyddai'r pris i ailgodi cerrig beddi sydd wedi eu gosod i orwedd oherwydd amheuaeth eu bod yn beryglus
- Biniau Baw Cŵn: Mynegwyd siom na chafwyd y biniau, ac yn arbennig na chafwyd ymateb i lythyr a anfonwyd yn holi amdanynt. Bu sawl engraifft yn ddiweddar. Cynigiwyd fod llythyr yn mynd i gwyno am ymateb gwael gwahanol adrannau'r Cyngor Sir.
- Llinell BT yn Hafod Lydan: Daeth llythyr oddi wrth Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi fod yr Awdurdod hefyd wedi gofyn i BT am roi'r llinell yma, oedd i'w hadnewyddu, o dan ddaear. Nid oes sicrwydd y bydd BT yn gwrando ar gais y Cyngor na'r Awdurdod
- Llwybr o Nantperis i'r Bwlch: Adroddwyd fod trafodaethau pellach wedi bod rhwng y Clerc a swyddog o Gyngor Cefn Gwlad Cymru am y posibilrwydd o gael llwybr, ac fod cael llwybr gyda'r ffordd yn bwysicach i drigolion lleol na llwybr uchel ar ochr 'Gallt y Llan' yn dod i lawr o Gorffwysfa a'r Bwlch
- Llwybrau: Adroddodd y Clerc iddo gael gair â pherchennog y ceffylau sy'n pori o gwmpas y llwybr sy'n arwain o Mur Mawr i Hafod Lydan. Roedd hi'n pwysleisio nad oeddynt yn 'wyllt a bygythiol' na chwaith yn beryglus, ond yn deall serch hynny y gallai rhywun fod yn ofnus neu bryderus o'u gweld yn carlamu. Addawodd y byddai'n cadw golwg arnynt.
- Yswiriant: Cafwyd adroddiad fod costau yswiriant y Cyngor yn rhesymol o gymharu â chwmnïau eraill, ac ar sail hynny penderfynwyd ailyswirio am flwyddyn arall gyda'r un cwmni.

**CYNLLUNIO:**
C04A/0403/15/LL – Adfer cyn dŷ, ynghyd â newidiadau ac estyniad i'r to – Tan Hafoty, Clegir, Llanberis – dim gwrthwynebiad
C04A/0364/15/LL – Codi caban diogelwch – Euro DPC, Glynrhonwy, Llanberis – Dim gwrthwynebiad.

**CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL GWYNEDD 2001–2016:**
Cafwyd cyflwyniad gan y Clerc i'r ddogfen gynhwysfawr hon gan Gyngor Gwynedd a fydd yn rheoli cynllunio a datblygu yn y sir am y deng mlynedd nesaf.

Nodwyd fod dau lecyn wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiadau tai, yng nghefn Maes Padarn ac ym Mrynbedw, ger gwesty Fictoria. Doedd dim gwrthwynebiad fel y cyfryw ond fe godwyd amheuaeth a fyddai rhoi mynedfa i'r safle trwy gefn Maes Padarn ddim yn mynd i ychwanegu yn ormodol at drafnidiaeth y stad.

Holwyd hefyd a ydi carthffosiaeth y pentref yn abl i dderbyn carthion 33 o dai ychwanegol. Nodwyd hefyd anfodlonrwydd nad oedd digon o'r tai yma'n mynd i fod yn 'dai fforddiadwy'.

Dywedwyd hefyd fod angen diogelu'r llwybr cyhoeddus trwy Frynbedw, ac fe holwyd am ddiogelwch y fynedfa i'r ffordd fawr o'r safle hwnnw.

Roedd cryn fodlonrwydd fod llawer o 'dir glas' o fewn y pentref i'w gadw fel yr oedd, heb ei ddatblygu, ond mynegwyd pryder am faint o ddatblygu fyddai yna yng Nglynrhonwy, a pha effaith fyddai'r datblygu yn ei gael ar bentref Llanberis.

**IS BWYLLGORAU Y CYNGOR:**
Etholwyd y canlynol i weithredu ar is-bwyllgorau'r Cyngor:
**Y Fynwent:** Derek Jones, Ken Jones, Helen Sharp.
**Angorfa:** Helen Sharp, Emlyn Bayliss, Carys Morris.
**Amgylchedd:** Olwen Gwilym, Douglas Pritchard, Trystan Thomas.
**Cynllunio:** Fred Owen, Wendy Hughes, Gavin Allsup.

I gynrychioli'r Cyngor ar wahanol gyrff etholwyd fel â ganlyn.
**Fforwm Padarn:** Carys Morris. Cynnig ac Eilio: DJ a FO.
**Consortiwm Busnes Llanberis:** Carys Morris. Cynnig ac Eilio: FO a DJ.
**Llywodraethwyr Ysgol Dolbadarn:** Trystan Thomas. Cynnig ac Eilio: CM a DP.
**Pwyllgor Gefeillio Morbegno:** Derek Jones. Cynnig ac Eilio: FO a CM.

**GOHEBIAETH:**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Alun Ffred Jones AC yn pryderu am symud swyddi Iechyd o'r ardal draw i'r dwyrain. Penderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad fel y gwrthwynebwyd y bwriad i symud swyddi o ganolfan Heddlu'r Gogledd yng Nghaernarfon.

**UNRHYW FATER ARALL:**

- Nodwyd pryder fod yr arwyddion newydd 'Llanberis' ar gwr y pentref braidd yn uchel ac yn ymyrryd â gwelediad gyrrwyr. Pwy oedd yn gyfrifol?
- Gofynnwyd a oedd modd symud mainc o Ffordd Tŷ Du, ger tai Glanrafon, am fod haid o bobl yn casglu o'i chwmpas yn hwyr y nos a chadw sŵn. Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn y papur i nodi'r bwriad ac i holi a fyddai gwrthwynebiad.
- Holwyd eto lle mae'r llinellau melyn i atal parcio yn Ffordd Tŷ Du?
- Gofynnwyd a fyddai modd cael rhybuddion i ofyn i berchnogion yn cerdded eu cŵn eu cadw ar dennyn ar lan y llyn.
- Gofynnodd y Cadeirydd am gael rhybudd ymlaen llaw os bydd gan unrhyw un fater i'w godi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## Cefnogwch ein Hysbysebwyr


**DODREFN PERKINS**
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

**Ffôn: (01286) 676 040**

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

**CEIR CYMRU**
**Bethel (01248) 670451**
(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

# Waunfawr
## (Parhad)

*(Parhad o dudalen 9)*

mewn llyn mawr ac roeddynt i fynd i mewn mewn dwy dorf o fil yr un. Roedd yn syfrdanol gweld mil o nofwyr wedi casglu mewn un lle, mewn llinell go drwchus yn y dŵr, yn disgwyl. Roeddynt i gyd mewn *wet suits* a chapiau melyn am eu pennau i'w gwahaniaethu o'r hanner cant oedd ym mlaen y llinell gyda chapiau pinc – y *proffesionals* – rhai oedd yn llythrennol yn cystadlu am eu bywoliaeth gyda sponsorships gan gwmnïau fel Nike a Reebok, ac yn y blaen.

Roedd pawb yn disgwyl am y foment i ddechrau a hyd yn oed y dorf o *supporters* ar y lan yn weddol ddistaw, onibai am y camerâu'n clicio a fflachio – 'P'run ydi'n hogyn ni, tybed?' 'Tybed, p'run 'di 'ngŵr i?' *'Mummy, where's Daddy?'* – O dyna fo, yr un hefo cap melyn!

Yna, eiliad cyn i'r hwtwer fynd, (ac wn i ddim sut oedd neb wedi gallu rheoli'r fath beth) trwy rhyw ollyngdod o'r tensiwn, torrodd bloedd uchel arswydus o'r mil yn y dŵr

'WHOAAA!!'

ac yn parhau am rhyw eiliad neu ddwy, hir – yna'r hwter yn canu a wyneb llyfn y dŵr yn cael ei gorddi gan ddwy fil o freichiau'n dyrnu.

O'r diwedd, daethant o'r dŵr a rasio am y beics, dwy fil ohonynt mewn rhesi, gadael y siwtiau gwlyb mewn bagiau i'w hel yn nes ymlaen gan y stiwardiaid ac ffwrdd â nhw rownd y wlad o amgylch am awr neu ddwy – neu dair, cyn dychwelyd i gyffiniau'r castell i redeg yr hanner marathon.

Rhaid dweud, roedd y diwrnod yn un â'n llenwodd ni ag edmygedd. Yn gyntaf oll, wrth gwrs, roedd gweld cynifer o ddynion a merched mor hieni o'n cwmpas yn gwneud i rywun deimlo blachder a pharch tuag atynt. Trefnwyr y ras hefyd yn haeddu clod am ddelio mor effeithiol â chymaint o gystadleuwyr mewn ras mor gymhleth, a dim damweiniau. Ac yn olaf y cystadleuydd 72 mlwydd oed a orffennodd y ras ac a gododd gywilydd arna innau, oedd yn edrych arnynt o'm *deck chair*.

O ia! Be wnaeth Jona? Daeth i mewn yn 1017, mewn chwe awr.

'Mi gnocia' i awr 'ddar hwnna y flwyddyn nesa,' meddai ar y ffôn rhyw dridiau wedyn.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# Nant Peris (Parhad)

*(Parhad o dudalen 17)*

Dydd Sul a het ar gyfer digwyddiad nos Lun hefyd. Na, nid cymanfa arall ond noson yn y rasus ceffylau. Er i ambell un fethu deall y syniad o gwbl (a chwilio'n ddyfal am y ceffylau ym mhob man!) cafwyd noson hwyliog iawn ac ambell un yn gyfoethocach yn gadael! Diolch yn fawr i Phil Roberts am drefnu'r noson.

Noson gwis oedd y Nos Fawrth a phawb wrth eu boddau yn cymryd rhan eleni gan fod llond bwrdd o win, caws a chreision yn rhan annatod o'r cwis! Diolch yn fawr iawn i Phil a Lyn Roberts am eu holl waith caled yn trefnu'r cwis ac i Anne a Jim Ty'n Llan am y dafarn! Llongyfarchiadau i Harim John Elis a oedd yn fuddugol!

Wedi sawl gêm gyffrous ac agos iawn, Aled Davies a Peter Walker oedd yn fuddugol yng Nghystadleuaeth y Pool eleni. Diolch unwaith eto i Anne a Jim am eu croeso, i John Ellis am drefnu, a diolch yn arbennig i Mr a Mrs Alun Jones am noddi'r noson.

Helfa drysor oedd hi ar nos Iau – a thaith i Borthaethwy ar hyd rai o lonydd culaf y fro! Llongyfarchiadau mawr i enillwyr y noson – y Tregarth Babes! a phob lwc yn trefnu taith flwyddyn nesaf! Diolch i Sean, Kate, Soo a Chris am drefnu'r noson ac i Mr a Mrs Alun Jones am eu cyfraniad hael.

Roedd nos Wener yn gyfle i pawb oedd yn ffansio ei hun fel Elvis neu Madonna (neu Dafydd Iwan!) ddangos eu dawn gerddorol gerbron cynulleidfa frwdfrydig yn Ty'n Llan. Sioned Cumberton oedd enillydd Cystadleuaeth *'Stars in their Eyes'*, y plant a Didos enillodd gystadleuaeth yr oedolion. Diolch i Anne a Jim am eu croeso unwaith eto, i Elvis Preseli ac i bawb a fu'n cystadlu ac yn canu tan oriau mân y bore!

Er stormydd y nos Wener (a thaith annealladwy y 'marquee' o'r cae hanner ffordd at lyn Peris!) gwawriodd fore Sadwrn y ffair yn braf a da oedd gweld prysurdeb lliwgar ar y cae. Cafwyd diwrnod da iawn rhwng y mabolgampau a'r atyniadau eraill, yn cynnwys cestyll neidio, arddangosfa torri coed gan Dafydd Cadwaladr, stondinau lu, ras hwyaid a digon o stondinau bwyd. Enillwyr cystadlaethau y limerigau gyda'r nos oedd Shirley Davies (Limerig Cymraeg) a Mrs Maureen Lennon (Saesneg).

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i'r canlynol am eu cymorth: Dai Lampard, Meirion a Rhian Pritchard, Dafydd Cadwaladr, Alun a Gaynor Jones, Emerson Hughes, Ariann y frenhines ac i bawb a fu'n helpu i drefnu'r ŵyl ac yn helpu ar y cae ar ddiwrnod y Ffair.

Raffl: 1. £100 – Liz. 2. £50 – Gwynedd, 3. £25 – John Ellis, 4. Tocynnau Rheilffordd yr Wyddfa – Tomos. 5. Hamper – Eugene Carville. 6. Tocyn £30 Vaynol Arms – D McGill. 7. Tocyn £25 Y Bistro – Carys, Nant. 8. Swper yn y Balti Raj – Penny ac IWan. 9. Tocyn Utopia. £15 – Brian Davies. 10. Bwyd i 2 Gwesty Fictori – Shirley Davies. 11 – Hamper Anne Parry a Mary – Carl. 12. Tocyn £10 London Garage – C Lewis. 13. Tocyn £5 Hairlines – Ifor Pant Buarth. 14. Ty Bychan – Emlyn Baylis. 15. Fflachlamp o Formag – Bethan. 16. Bag gan Iola – Dafydd Fachwen. 17 – persawr – Hiker's Rest – John a Pam Mainwaring. 18 Steamer (Val) – Ceri Morris. 19. Cwrw (Shirley) – Helen Glanrafon. 20. Cool Box – Sioned Owen. 21. Rucksack (Joe Brown) – Iestyn Jones. 22. Hamper – Sian Davies

Rasus Hwyaid – S Griffith, Llanberis. Twmpath y Fuwch – Jessica Williams, Enwi'r tedi – Elin Haf, Llanberis

Diolch yn fawr i bawb – unigolion a busnesau am eu cyfraniadau hael tuag at y ffair. Ni fyddai'r wythnos wedi bod yn bosib heb yr holl gefnogaeth a'r haelioni – diolch yn fawr.

CARNIFAL: Cynhaliwyd carnifal blynyddol Nant Peris ar nos Wener, Gorffennaf y 23ain ym maes parcio'r pentref. Cafwyd noson llawn hwyl ymhlith y stondinau a'r cystadlaethau a braf oedd gweld y tywydd heulog.

Hoffai aelodau'r pwyllgor ddiolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr a helpodd i drefnu'r noson ac i'r holl unigolion a busnesau lleol a gyfrannodd yn hael tuag at ein raffl a'n stondinau. Diolch i'r Parc Cenedlaethol am y nawdd a gawsom ar gyfer prynu byrddau a chadeiriau newydd i'r carnifal ac hefyd i Carys Morris. Diolch hefyd i Mr a Mrs Elwyn Wilson Jones ein beirniaid, a Mr Raymond Jones a band ieuenctid Llanrug.

Rhoddion – Diolch i Ken, Meirion a Edwin Roberts.

Canlyniadau y cystadlaethau gwisg ffansi: NANT PERIS, 0-4 OED – 1AF – ERIN A ROBIN, AGORED – 1. FFION ROBERTS, 2, LIAM HUGHES, 3, ARON JONES.

5-7 OED NANT PERIS – 1. SARAH, 2. ELEANOR A MEGAN. 3. GARETH. AGORED: 1. GWENNO. .2 ELIN. 3.CARYL.

8-11 OED NANT PERIS – 1. MIRIAM, 2. SIONED.3. KATE – AGORED – 1. ZANNIA. 2. FRANCESCA. 3. MIRIAM.

11+ OED NANT – 1. MANON. AGORED – 1. SAM. 2. ALANA. 3. MANON.

OEDOLION – 1. CHANTEL. 2. CHERYL A STEVE. 3. KAREN.

GLINIAU CODOG – 1. HELEN THOMAS. HET ORAU – 1. LIAM HUGHES. 2. EMILY HUGHES. 3. GETHIN.

GWISG FFANSI ORAU Y SIOE – 1. BRENHINES YR WYDDFA – SARAH DRUMMOND.

CANLYNIADAU'R RASUS

DAN 5: 1. MEGAN. 2. ARON. 3. EBAN.

5-8 OED: 1. KATE.2. GETHIN.3. GARETH A ROBAT

9-11 OED: 1. DERW. 2. ARIANN. 3. B.J.

RAS DEIRCOES – 1. MANON A GWENNO. 2. IAN AC ALED. 3. ARIAN A ZANNIA

RAFFL £50 871427. HAMPER – NIGEL P. PETROL – 871891. HYLIFYDD – MAM HEDDWEN. TOSTAR – 01407 720890. TECELL – 0280641 PETE. RON: 871423 BRANDY 872 449. GIN – WILLIAMS BROWNIES. WHISGI – HEFINA. PETROL – 871 301. CINIO YN Y VICTORIA – 871605. CINIO YN PADARN LAKE – MELISSA. DRAIG – ANN. CAP – 871 773. GWIN MARIA BECWS ERYRI. GWIN – 675210. GWIN – 870494. WAVEL – 872094. TOCYN TEULU – 720 890. HAIRLINES – 676896. SYRCAS – 871440. LAUDRY – THOMAS HUGHES. HEALING GARDEN – MALI. TOSTI – NORA. SELSIG – 870 494

NOSON GWIS – DIOLCH YN FAWR Mr Meirion Griffith am drefnu'r cwis.

Noson pool – Enillydd tarian goffa Selwyn Davies oedd John Ellis yn dilyn gêm gyffrous iawn yn erbyn Simon Stacey. Diolch i John Ellis am drefnu'r noson. – Gweler y llun.

Hoffem ddiolch i Anne a Jim, Ty'n Llan, am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ac am roi caniatád inni ddefnyddio eu tafarn i gynnal y ddwy noson. Diolch i bawb a drefnodd ac a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson.



*A llun o Ariann – Brenhines Carnifal Nant Peris 2004.*


**Am Offer Tŷ a Gardd...**

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

# CROESAIR HYDREF



Pedwar 7 ar draws sydd yng Ngwynedd. Fe enwir un yn 11 ar draws a'r gweddill yn 19 i lawr, 33 i lawr – 20 ar draws (2 air) a 25 i lawr – 46 ar draws – 10 ar draws (3 gair)

**Ar Draws:**

1. Brodwaith (5)
4. Bag bach wedi ei wau wrth ddillad (5)
12. Papur sy'n dangos faint sydd i'w dalu, ynte' William? (3)
14. ..... ac mae'n rhaid talu hwn hefyd! (7)
15. Llyfrau hanes (9)
16. Pennill pum llinell, un smala fel arfer ..... (6)
18. ...... yn y llc hwn (3)
25. Waldio rhywun er mwyn glanhau ei ddillad? (5)
27. Pryd mwyaf y dydd (5)
28. Arf ffrwydrol a saethir yn uchel ac ymhell (5)
29. Drychiolaeth ofnadwy a dihylif yn datguddio ceirw bach! (6)
30. Dau efallai? (3)
31. Cynllun yr hyn sy'n cael ei wau (6)
36. Brodorion gwlad y tartan (9)
40. Tanerdy (7)
42. Nifer o anifeiliaid o'r un rhyw gyda'i gilydd (3)
43. Tynnu mwg o bibell? (6)
44. Bloeddio (6)
45. Laura o Gymru? (5)
47. Llen i ddangos lluniau arni (5)


**I Lawr:**

1. Tacsi i un twp yn achosi cymysgwch ..... (7)
2. ...... fel dyn.... (5)
3. ...... mewn llefydd i gadw nwyddau? (7)
5. Dyn mympwyol efo cragen galed? (5)
6. Dyfalbarhad o faldod? (6)
7. Gwrid (5)
8. Fflap llaes ar ddilledyn (5)
9. Â gwallt melyn – blondan! (9)
13. Dyheu (3)
17. Mae'r maen clais yn drwm yn Oriel Llangefni (5)
21. 'Yn _ _ _ meddaf i chwi...' Luc 18:17 (3)
22. Offeiriad a chanddo grŵp pop ers talwm? (5)
23. Adlais y papur hwn (3)
24. Rhedeg i ffwrdd (3)
26. Oernadu mewn hudoliaeth! (3)
32. Merch sy'n gweithio yn yr ail ran o 25 i lawr (7)
34. Y stwff du sy'n rhwymo'r cerrig mân ar y ffordd (6)
35. Yn gryf ac yn fedrus (3)
37. Dyn neu fachgen, neu hyd yn oed gi! (5)
38. I wynt tymhestlog i weld yn rhai ar lan y môr? (5)
39. Y ddegfed rhan (5)
41. Cath fawr o Asia! (5)

Derbyniais atebion i groesair mis Medi gan Ceinwen Williams ac Olwen Jones, Bethel; Eluned Jones a D.B. Williams, Trefor; Nan Owen, Moreen Lennon, Aylwyn Hughes ac Olwen Owen, Llanberis; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Tegid Roberts a Ceridwen Williams, Llanrug; Jennie Williams, Clynnog; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Megan Morris, Dinorwig; N. Hughes, Cwm y Glo; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwen Griffith, Deiniolen; Nansi Davies, Rhuthun; H.O. Hughes, Pwllheli; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Alvona Jones, Prestatyn; Hywel Griffith, Awstralia a dau yn ddienw.

Enillydd y mis ydi E.E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun. Llongyfarchiada a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Medi, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 18 Hydref 2005.



# RHODDION

£20: Teulu Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig.
£10: Richard a Meirwen, Caer Maen, Ceunant, Llanrug; Gwilym Williams, Bryn Eifion, Llanrug; Mrs Ned Williams ac Alwyn a'r teulu, 2 Bryntirion, er cof am Olive.
£5: Di-enw, Deiniolen; Euros ac Emily Williams, Hafle, Faenol Terrace (gynt); Margaret Cynfi, Deiniolen; Eirlys a Dafydd, Berllan, Llanrug; Euron a Jacci Griffith, Caerdydd; Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, Llanberis.
£3: Gwenno Williams, Syrjyri Waunfawr Meinir Angharad Edwards, 5 Stryd y Ffynnon, Llanberis.
£2: Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen;

# Ennill DVD

MAE gan yr Eco gopi DVD o Ras yr Wyddfa i'w roi fel gwobr i un o'n darllenwyr. Mae'n gopi o raglen deledu yn dangos ras 2004 a gafodd ei gynhyrchu i Sky Sports ac sydd nawr yn cael ei werthu fel DVD. Cwmni Da, Caernarfon, sydd tu cefn i'r fenter ac mae dau o'r sylwebwyr ar y rhaglen yn hogia lleol, sef Gwyn Williams, o Fethel, a Tim Lloyd, o Bontrug.

Am gyfle i ennill, atebwch y cwestiwn yma: Pwy oedd y Cymro lleol ddaeth yn drydydd yn y ras eleni?

Atebion i law'r golygydd erbyn 18 Hydref. Cyhoeddir y buddugol yn Eco Tachwedd.


**Ffair Greiriau Fawr**
**Ynys Môn ar Faes Sioe Môn**
**Mona** *(ar yr A5)*

Dydd Sadwrn a Dydd Sul
2 a 3 Hydref, 2004
rhwng 10.00am a 5.00pm
Arwerthwyr dodrefn a hen greiriau o bob rhan o Brydain
Mynediad £2.50
Parcio am ddim
Lluniaeth ardderchog

Ffair Greiriau Bwysicaf Gogledd Cymru

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –
Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676265 (nos)

H. E. HUGHES A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

